Y DINESYDD

Hydref 2017 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 421 £1

DINASYDDION DYNGAROL

Leah a Laura Mitula o Kenya yn ystafell stoc Siopa Teg - tud. 2

Apêl Plant Mewn Angen - tud. 17

Grant Hanfod ar gyfer ceiswyr lloches - tud. 2

Tim "GÔL!" yn paratoi ar gyfer y daith i Georgia - tud. 24

Teg edrych tuag .....!

Adref yw'r gair coll wrth gwrs. Mynd adref i le cysurus? Dyna ein gobaith fel arfer ond anodd iawn fyddai hynny petaech chi ddim yn ennill digon o arian. Yn anffodus dyna'r gwirionedd i filiynau o bobl ond mae Masnach Deg yn gallu newid y sefyllfa honno a gwneud yr edych tuag adref yn wirioneddol deg.

Mae Fair Do's / Siopa Teg yn hyrwyddo gwaith Masnach Deg yng Nghaerdydd ac mae'r siop ei hun yn un o drysorau cudd y ddinas! Wrth gwrs mae'n bosib na wyddoch am fodolaeth y siop sydd wedi ei lleoli yn Nhreganna. Mae hi'n llawn nwyddau o bob math ac mae'r siop a'i gwirfoddolwyr wedi cefnogi a hyrwyddo Masnach Deg ledled De Cymru am ugain mlynedd bellach.

Cennin Pedr gwneud gan law yn Zimbabwe

Mae'r siop yn llawn o nwyddau hyfryd a lliwgar - teganau, dillad, gemwaith, crefftau a bwydydd masnach deg - ond mae mwy na hyn i'r syniad o fasnachu teg. Mae tîm Siopa Teg yn frwd iawn ynghylch gwaith allanol a gweithio gyda'r gymuned leol. I'r diben hwn, maen nhw'n croesawu grwpiau o blant ysgol i ymweld â'r siop a chynnal gweithgareddau addysgol, yn cynnal stondinau mewn gwyliau lleol ac yn cefnogi gwirfoddolwyr i gynnal stondinau eu hunain yn eu heglwysi a grwpiau eraill. Ar hyn o bryd mae Siopa Teg yn cyflogi Aled Pickard fel gweithiwr allanol o dan nawdd Hub Cymru Africa ac mae e'n treulio ei amser yn ymweld ag ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol i gyflwyno canlyniadau gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Siopa Teg i effeithiau prynu nwyddau masnach deg yng Nghymru.

Meddai Aled, "Roeddwn yn gwybod bod masnach deg yn helpu i drawsnewid bywydau'r ffermwyr a'r cynhyrchwyr tu ôl i rai o'n hoff gynnyrch, ond ar ôl gwneud y gwaith ymchwil hwn a chwrdd â chynhyrchwyr masnach deg, mae'n galonogol iawn gwybod bod pob pryniant unigol yn helpu pobl mewn rhai o wledydd tlotaf y byd i ddiwallu eu hanghenion. Gall 55 o bobl gynnal ffermwr coffi yn Uganda drwy yfed un cwpanaid o goffi masnach deg yr un bob dydd. Trwy werthu crefftau o Kenya, yr ydym ni yn Siopa Teg wedi galluogi mamau ennill yr hyn sydd angen iddynt dalu am addysg eu plant, sy'n cyfateb i fwy na 13 blynedd o addysg hyd yma."

Un peth mae Siopa Teg yn ei gynnig yw 'Noson o siopa hwylus'. Gall grwpiau drefnu noson yn y siop gyda lluniaeth ysgafn am ddim a chyfle i chwilio, edrych a phrynu nwyddau Masnach Deg. Gellir hefyd cael sgwrs am waith Masnach Deg. Mae'r nosweithiau hyn yn boblogaidd iawn yn arbennig yn y cyfnod cyn y Nadolig. Mae'n ffordd berffaith i gymdeithasu gyda ffrindiau tra'n dewis anrhegion i'r teulu heb y boen o siopa mewn tyrfa o bobl! Cyfle gwych i'r rheiny sy'n gweithio i ymlacio wrth siopa. Cewch eich syfrdanu gan y dewis o nwyddau Masnach Deg sydd ar gael - y dewis mwyaf yng Nghymru! Nid coffi, siocledi a bananas yw'r unig bethau y mae Masnach Deg yn ei gynnig!

www.facebook.com/fairdoscardiff
www.fairdos.com Trydar: @fairdoscardiff
E-bost: info@fairdos.com Ffôn: 029 2022 2066

Elusen newydd yn rhoi hwb i elusennau yng Nghaerdydd

Mae dwy elusen yn y ddinas wedi cael grant gan Hanfod Cymru i barhau â'u gwaith elusennol. Cafodd Techniquest grant er mwyn ehangu ei gwaith estyn allan STEMS mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg ar gyfer disgyblion uwchradd mewn ardaloedd difreintiedig.

Dywedodd Abe Sampson, Swyddog Codi Arian Techniquest "Mae'r arian yma yn mynd i wneud gwahaniaeth enfawr, a phryd r'yn ni'n trio delio ag anghydraddoldeb yn yr ysgol mae'n bwysig ein bod ni'n gallu cynnig y sesiynau hyn mewn ysgolion difreintiedig heb gost"

Derbyniodd Space4u grant er mwyn parhau â'r gwaith o gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n ymgartrefu yng Nghaerdydd. Mae Space 4U yn cynnig sesiynau galw i mewn yng Nghanolfan y Drindod ar Heol Casnewydd y brifddinas pedair gwaith yr wythnos ac yn cynnig lle i geiswyr lloches a ffoaduriaid i gyfarfod a chymdeithasu â phobl sydd mewn sefyllfa debyg iddynt, i fynychu sesiynau dysgu Saesneg a sesiynau rhiant a phlentyn.

Dywedodd Ruth O'Neill Rheolwr Space4U "Bydd y grant gan Hanfod Cymru yn helpu tuag at gost y prydau bwyd ar gyfer y ceiswyr lloches a ffoaduriaid ac yn mynd tuag at ad-dalu treuliau gwirfoddolwyr".

Sefydlwyd Hanfod Cymru ym mis Ebrill fel elusen sydd yn dosbarthu grantiau i elusennau cofrestredig yng Nghymru. Mi fydd yn darparu grantiau o'r elw o werthiant tocynnau Loteri Cymru gyda lleiafswm o 20% o'r elw o gyfanswm gwerthiant tocynnau yn cael ei gyfeirio at achosion da yng Nghymru drwy'r elusen. Elusen annibynnol yw Hanfod Cymru â'i Bwrdd Ymddiriedolwyr ei hun, ac mae'n gweithredu'n annibynnol ar Loteri Cymru, sy'n goruchwylio'r loteri wythnosol. Y gobaith yw y bydd llawer fwy o elusennau yn gallu manteisio ar y cyfle o gael grant yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth am yr elusen ewch i www.hanfodcymru.wales neu i'r tudalen www.facebook.com/hanfodcymru

Y DINESYDD

Golygydd:
Wyn Mears

Golygydd Tachwedd
Alun Treharne

Cyfraniadau erbyn 27 Hydref i:
91 Windermere Ave., Parc y Rhath,
Caerdydd, CF23 5PS
aluntreharne@btinternet.com
029 20754436 / 07800908898

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestyn@gmail.com
63 De Burgh St., Glan-yr-afon,
Caerdydd, CF11 6LB
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774816209

Tanysgrifiadau i:
Jöel D'Auria
joel.dauria@gmail.com
53 Melrose Avenue, Penylan,
Caerdydd , CF23 9AT
07540057783

www.dinesydd.cymru
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

CABAN, Pontcanna
CANT A MIL VINTAGE, 100 Whitchurch Rd.
CHAPTER, Treganna
DERI STORES, Rhiwbeina
FOOD FOR THOUGHT, Y Barri
GRIFFIN BOOKS, Penarth
PAPERWEIGHT, 22 Wellfield Road
SIOP BODLON, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
SIOP Y FELIN, Yr Eglwys Newydd
VICTORIA FEARN GALLERY, Rhiwbeina

Daniel a Harry o Gaerdydd yn cystadlu am Ysgoloriaeth Bryn Terfel

Mae clocsiwr a cherddor dawnus o Gaerdydd yn ddau o'r chwech talentog fydd yn cystadlu am Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel ar nos Sadwrn, 14 Hydref yn Theatr Sony, Coleg Penybont.

Dewiswyd Daniel Calan Jones, 16 oed a Harry Lovell-Jones, 20 oed, i fod yn rhan o'r gystadleuaeth yn dilyn eu perfformiadau arbennig wrth gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái eleni. Ers hynny, ac fel rhan o'r profiad o fod yn rhai o'r chwech dethol, mae'r ddau wedi derbyn cyngor a dosbarthiadau meistr gan arbenigwyr yn eu maes. Yr hyfforddwr dawns a'r cynhyrchydd rhaglenni teledu adnabyddus Meinir Siencyn yw mentor Daniel a'r tiwtor offer taro uchel ei barch Owen Gunnell sy'n cynnig ei gyngor i Harry.

Yn ogystal â'r clod o ennill y wobr sy'n gysylltiedig â'r bariton byd-enwog, bydd yr enillydd hefyd yn derbyn gwobr ariannol o £4,000 er mwyn datblygu eu talent i'r dyfodol. Noddir y wobr eleni gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant.

Harry Lovell-Jones

Mae Harry yn astudio Offerynnau Taro yn y Royal Academy of Music yn Llundain ac mae â'i fryd ar ddilyn gyrfa gyda cherddorfa broffesiynol a chael y cyfle i berfformio amrywiaeth eang o gerddoriaeth.

Dywedodd, "Rwy'n gyffrous iawn i gael bod yn rhan o Ysgoloriaeth Bryn Terfel. Byddai rhoi perfformiad llwyddiannus yn rhoi tipyn o hyder i mi i'r dyfodol a dw i'n gwybod y bydd yn brofiad bythgofiadwy!"

Yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, mae Daniel yn awyddus i ddenu mwy o bobl ifanc i glocsio,

"Mae cael bod yn rhan o gystadleuaeth mor adnabyddus yn anhygoel. Dw i'n teimlo ychydig yn nerfus mai fi yw'r ieuengaf yn y gystadleuaeth ond dw i wir yn edrych ymlaen at gael perfformio ar y noson!"

Daniel Calan Jones

"O ran y dyfodol, hoffwn i ddysgu a denu mwy o bobl ifanc i glocsio a datblygu'r grefft er mwyn ei wneud yn fwy 'cŵl'."

Y pedwar arall fydd yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni fydd:-
John Ieuan Jones o Fae Colwyn
Megan Llŷn o Sarn, ger Pwllheli
Sioned Llewelyn o Efailwen, ger Clunderwen
Cedron Sion o Borthmadog

Yn beirniadu, ac yn cael y dasg anodd o ddewis enillydd ar y noson, fydd Delyth Mai, Eirlys Britton, Rakhi Sing, Sioned Terry a Cath Ayres.

Mae tocynnau ar gyfer y Cyngerdd yn Theatr Sony, Coleg Pen-y-bont ar gael am £10 o wefan yr Urdd neu trwy ffonio 0845 257 1639. Bydd y cyngerdd yn cael ei ddarlledu'n fyw ar S4C nos Sadwrn 14eg o Hydref.

Pwyllgorau Apêl Eisteddfod 2018 ar waith

Pwyllgor Apêl Penylan, Cyncoed, Y Rhath a Cathays

Dyma ni'n barod ar gyfer tymor newydd o weithgareddau a chymdeithasu. Cawsom seibiant bach fis Awst, (heblaw am bicio i Sir Fôn a chael hwyl yn rhannu stondin efo criw o bwyllgorau ledled Caerdydd i werthu nwyddau a hyrwyddo) er mwyn dadflino cyn ail afael!

Diolch o galon i bawb am yr holl gefnogaeth yn y llu o weithgareddau amrywiol dros y misoedd dwetha. Mae'r ymateb a'r rhwydweithio wedi bod yn wych a'r cyfraniadau ariannol wedi bod yn ardderchog.

Cawsom lot mawr o hwyl mewn cwisiau, nosweithiau cyri, boreau coffi, noswaith harddwch, te pnawn, ceilys ac wrth gwrs gyda'n Map Caerdydd Danddaearol, sydd wedi profi i fod yn hynod o boblogaidd.

Beth nesa?

Mae'r argraffiad cyntaf o'r map Caerdydd Danddaearol bellach wedi gwerthu, cymaint y galw! Ond y newydd da yw bod stoc newydd gennym - yn bosteri ac yn fapiau wedi'u fframio a hefyd fersiwn mawr ar gyfer ysgolion neu swyddfeydd ayb.
Heb brynu eto? Cysylltwch efo:
niabenaur@hotmail.com

Fis Tachwedd bydd llieiniau llestri gyda llun y map hefyd ar gael – dyma anrheg Nadolig gwych!

Ar y gweill …

Nos Fercher 22 Tachwedd Noson lansio cwrw 'Heol Y Plwca' efo bragdy'r Rhath yng Nghlwb Chwaraeon Mackintosh ger City Rd.

Gwyliwch ein cyfrif trydar **@ApelPCRhC** neu ein tudalen Facebook: **Apêl Penylan, Cyncoed, Y Rhath a Cathays** am y cyhoeddiad am ein noson siampen.

24 Tachwedd – MWY O SAIN, CERDD A SGANDAL yn y Mansion House, Richmond Road, Y Rhath.

Noson o gerddoriaeth gyda Joy Amman Davies wrth y piano ac Alwyn Humphreys yn dadlennu storïau anhygoel am y byd cerdd. Tocynnau £20 yn cynnwys gwydraid o bybli a canapés. Cyfle i glamio dipyn a mwynhau moethusrwydd Tŷ'r Maer. Cysylltwch ar frys am docyn.

25 Ionawr 2018 - Nodyn i'r dyddiadur ar gyfer SANTES DWYNWEN

Cinio Gala Cariad@laith yng Ngwesty'r Hilton ar Noson Santes Dwynwen i hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg yng Nghaerdydd, gydag adloniant ac ocsiwn mawreddog.

Mae mwy o wybodaeth i ddod dros y misoedd nesaf am ein nosweithiau cymdeithasol a'n digwyddiadau teuluol. Mae croeso cynnes i bawb i'n gweithgareddau, neu i ymuno â'r pwyllgor. Dyw hi ddim yn rhy hwyr! Am wybodaeth neu i wneud cyfraniad, cysylltwch â ni:
PwyllgorPenylan@gmail.com
@ApelPCRhC

Pwyllgor Apêl Treganna, Parc Fictoria a Phontcanna

Ar ôl egwyl dros fis Awst, mae'r Pwyllgor Apêl wedi ail-afael ynddi o ddifri ar ôl gwyliau'r haf i godi arian at Eisteddfod 2018, ac yn edrych ymlaen at gynnal llu o ddigwyddiadau, a chwrdd â ffrindiau a chefnogwyr ar y daith.

Prif ddigwyddiad y Pwyllgor ar gyfer mis Medi oedd y cinio mawreddog 'Dathlu Datganoli' yng ngwesty'r Exchange i lawr yn y Bae nos Wener 22 Medi. Teg dweud, mae'n debyg, fod y noson wedi bod yn llwyddiant ysgubol, a'r cur pen o drefnu digwyddiad mor anferth wedi bod yn werth y drafferth. Cafwyd lleoliad bendigedig, bwyd ardderchog, a llond ystafell o gefnogwyr brwd. Mae'n rhaid diolch i bawb am eu

cefnogaeth, ac annoeth iawn fyddai mynd ati i geisio enwi pawb gan fod cyfraniad pob un mor werthfawr. Amcangyfrifir fod cyfanswm elw'r noson dros £9,000! Felly os oes gan unrhyw un arall gynlluniau tebyg, mae'n werth yr ymdrech! Allwn ni ddim diolch digon i bawb am eich haelioni.

Cafwyd noson gwis llwyddiannus yn y Mochyn Du nos Lun 25 Medi, a chriw da wedi troi i mewn am noson hwyliog arall yn y cwis dwyieithog. Diolch i Geralllt am drefnu'r nosweithiau hyn. Mae mwy ar y gweill dros y misoedd nesaf, felly gobeithio y gwelwn ni chi yno.

Digwyddiad arall sydd wedi'i drefnu yw Cyngerdd gyda Claire Jones yn y Tabernacl, yr Ais nos Sadwrn 7 Hydref, gyda Chôr Meibion Taf – criw arall sy'n brysur iawn ar hyn o bryd yn cefnogi digwyddiadau codi arian. Diolch yn fawr iawn iddynt. Mae hwn yn argoeli i fod yn gyngerdd poblogaidd, felly archebwch eich tocynnau ddigon ymlaen llaw. Maent ar werth nawr gan aelodau'r pwyllgor.

A beth am lwgu eich hun wedyn am wythnos ac ymuno â ni am noson Cyri a Chwis yn y Star of Wales nos Sul 15 Hydref? Bydd y fwydlen a'r cwestiynau wedi'u gosod ymlaen llaw, felly cofiwch roi gwybod os oes gennych unrhyw anghenion dietegol arbennig.

Ar y gweill hefyd mae Ocsiwn Gelf ar 10 Tachwedd. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Cofiwch y gallwch chithau fynd ati i drefnu digwyddiad neu ddigwyddiadau. Cysylltwch â ni i drafod.

Os na allwch chi ymuno â ni ar gyfer y digwyddiadau, ond yr hoffech gefnogi, rydym wedi bod yn ffodus iawn

o gael nwyddau i'w gwerthu gan artistiaid talentog ifanc, sef print 'Bae Caerdydd' gan Ffion Gwyn. Mae gennym nifer cyfyngedig o 500 i'w gwerthu, a phob un wedi'i lofnodi gan yr artist.

Ac mae gennym galendrau hardd 2018 ar werth hefyd, wedi'u dylunio gan Eleri Haf, ac yn nodi dyddiadau pwysig am y flwyddyn nesaf. Maent ar werth yn Caban, Pontcanna neu gan aelodau o'r pwyllgor, neu yn y digwyddiadau a gaiff eu cynnal.

Cysylltwch drwy e-bost: pwyllgorcanna@gmail.com
neu dilynwch ni: Trydar: @pwyllgorcanna
Facebook: Pwyllgor Apêl Treganna, Parc Fictoria a Pontcanna

Apêl am gyfraniadau a gwobrau ariannol i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

Gyda Phrifwyl llwyddiannus newydd ei chynnal ym Môn, mae gwaith trefnu Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a gynhelir rhwng 3 - 11 Awst flwyddyn nesaf yn y Bae yn prysuro ymlaen.

Mae cannoedd o wirfoddolwyr wedi bod yn gweithio ar y testunau yn ogystal â'r myrdd o weithgareddau sydd wedi ac yn cael eu trefnu i godi arian tuag at y targed o £320,000 a osodwyd i'r gronfa leol, sef cyfraniad dalgylch Caerdydd i'r gost o £4 miliwn a mwy sydd i gynnal yr ŵyl.

Medd Ashok Ahir, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith "Gyda llai na blwyddyn i fynd, mae'r apêl ariannol yn gwneud cynnydd da ar hyn o bryd, diolch i haelioni unigolion a gwaith arbennig y pwyllgorau apêl yn cynnal rasys i ddringo mynyddoedd, ac o drefnu gigs i gynnal te pnawn – mae pob digwyddiad nid yn unig yn gyfle i godi arian, ond maen nhw hefyd yn gyfle i ni gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen cryn dipyn o ymdrech eto a phob cymorth i sicrhau ein bod yn cyrraedd targed y gronfa leol i fedru cynnal prifwyl fydd yn cwrdd â disgwyliadau'r miloedd o ymwelwyr a ddaw i Gaerdydd o bob rhan o Gymru a thu hwnt flwyddyn nesaf".

Cynhaliwyd Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod ddiwedd Mehefin ar lawnt Neuadd y Ddinas, pryd cyflwynwyd y Rhestr Testunau, a diolch i bawb a fu'n rhan o lwyddiant yr achlysur. Ymhlith y testunau mae manylion nifer o roddion wobrau tuag at y cystadlaethau amrywiol, a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Braf o beth fyddai cael y Rhaglen flwyddyn nesaf yn llawn o roddion gwobrau - tybed oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfrannu ond ddim yn siŵr sut i fynd o'i chwmpas hi?

Mae unigolion a sefydliadau yn medru cyfrannu a / neu gynnig gwobr am amrywiol resymau, sydd yn ffordd syml ond hynod effeithiol o gefnogi'r Eisteddfod yn ogystal â phwyllgor apêl o ddewis y rhoddwr, gan fod y cyfraniadau (ac ad-daliad Rhodd Gymorth os yn gymwys) i gyd yn mynd ar gyfer y gronfa leol.

Mae cynnig gwobr yn syml iawn, gellir cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod trwy'r dudalen Gwobrau ar y wefan www.eisteddfod.cymru/gwobrau; dros y ffôn ar 0845 40 90 400 neu e bostio alwyn@eisteddfod.org.uk gyda'r manylion perthnasol. Mi fydd cyfraniadau a rhoddion gwobrau a dderbynnir cyn diwedd Ebrill 2018 yn sicr o ymddangos ar wefan yr Eisteddfod â'r Rhaglen swyddogol fydd ar gael erbyn diwedd Mehefin.

I wybod mwy am sut y gallwch gefnogi a chyfrannu at lwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018, ewch i wefan yr Eisteddfod www.eisteddfod.cymru.

Deg Hoff Englyn

Gwahoddiad caredig yw hwn: gwahoddiad i holl garedigion y pethe, ac yn arbennig i'r cannoedd lawer sy'n mawr werthfawrogi traddodiad barddol cyfoethog Cymru.

O blith mesurau cerdd dafod, yr englyn, bid siŵr, yw un o'r rhai mwyaf poblogaidd. A dyna amcan y nodyn hwn: estyn gwahoddiad diffuant ichwi anfon ataf destun eich hoff ddeg englyn. Nid cystadleuaeth ydyw, ond cyfle i bawb fod â rhan mewn gweithgarwch fydd yn adlewyrchu'r diddordeb rhyfeddol sydd gan gymaint ohonom yn y chwarel ddihysbydd hon o englynion, ar gof a chadw gennym fel cenedl o'r nawfed ganrif hyd heddiw. Bydd croeso i nodi nid yn unig englynion o blith y rhai mwyaf adnabyddus, ond hefyd englynion llai cyfarwydd, o bosibl, ag iddynt apêl bersonol arbennig i chwi.

Yn ogystal ag ennyn diddordeb pellach yn hoff englynion y Cymry, y gobaith yw codi swm sylweddol o arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, Awst 2018 (gw. isod). Cyhoeddir y deg englyn a ddaeth i'r brig, ynghyd ag enwau pawb a gyfrannodd.

Rhai cyfarwyddiadau pellach:

Anfoner testun teipiedig o'r englynion ar bapur A4.

Os yn bosibl, dylid anfon copi o'r englynion hefyd ar ffurf atodiad drwy e-bost.

Gyda'r englynion gofynnir yn garedig ichwi anfon rhodd o £25 (neu fwy, os dymunwch). Y siec yn daladwy i: Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Dylid nodi enw awdur pob englyn, os yw'n wybyddus. Yn arbennig gydag awduron llai cyfarwydd, gorau oll os gellir hefyd ychwanegu yn gryno unrhyw wybodaeth bellach, megis ardal yr awdur a blwyddyn geni / marw.

Gellir cynnwys unrhyw un o ffurfiau'r englyn, nid yr englyn unodl union mwyaf cyfarwydd yn unig.

Os yw englyn yn rhan o gyfres, da fyddai cyfeirio at y gyfres gyflawn.

Gorau oll os gellwch restru'r englynion yn nhrefn blaenoriaeth. Ond nid yw hynny'n orfodol. Gellwch hefyd, er enghraifft, eu dosbarthu fel hyn: 1-3: hoff englynion; 4-6: ail ddosbarth o hoff englynion; 7-10: trydydd dosbarth o hoff englynion.

Gyda'r casgliad o englynion dylid nodi eich enw, cyfeiriad (yn cynnwys cyfeirnod post), rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost.

Y dyddiad cau yw 1 Ebrill 2018, ond gorau po gyntaf i anfon ataf: Cwm Eithin, 37 Heol Sant Mihangel, Llandaf, Caerdydd, CF5 2AL. Tel. 029 2056 6249. rgwyndaf@sky.com

Byddai'n hyfrydwch arbennig i mi pe bai ugeiniau lawer ohonoch yn mynd ati mor fuan â phosibl i ddewis eich hoff englynion. Yr un modd, i annog eraill drwy ddangos y gwahoddiad hwn i unigolion, cymdeithasau, dosbarthiadau cerdd dafod, ac ati. Canmil diolch am eich cefnogaeth a phob dymuniad da.

Robin Gwyndaf

Casgliad o Enwau Lleoedd Gwahoddiad Caredig i Gystadlu

Dyma fanylion cystadleuaeth rhif 182 yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, Awst 2018:

'Casgliad o hyd at 30 o enwau lleoedd unrhyw ardal, pentref neu dref yng Nghymru, gyda thrafodaeth ar eu hanes a'u hystyron a chofnod o'u cyfeirnod grid. Dylid hefyd, pan fo hynny'n bosibl, nodi ffynhonnell y wybodaeth.'

Cystadleuaeth yw hon a osodwyd gan Amgueddfa Werin Cymru, gyda £200 o wobr, yn rhoddedig gan yr Amgueddfa, a'r Athro David Thorne yn beirniadu.

Daw'r wobr ariannol o Gronfa Goffa Elizabeth Reynolds (1907-1986), Brynhoffnant, Ceredigion.

Hyfrydwch arbennig i mi, er 1963, oedd cael adnabod Elizabeth Reynolds. Yr oedd yn un o brif gymwynaswyr diwylliant gwerin Cymru, ac y mae ar gadw yn Sain Ffagan gasgliadau helaeth o'i gwaith, ffrwyth llafur cariad yn cofnodi agweddau cyfoethog yn ymwneud â'r maes hwnnw ac yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Cyn ei marwolaeth (9 Mawrth 1986) yr oedd wedi mynegi ei dymuniad i gyflwyno rhodd ariannol i'r Amgueddfa Werin er mwyn hyrwyddo cofnodi ac astudio ein llên gwerin, a thrwy gydweithrediad caredig ei mab, Idris, dyna a ddigwyddodd. Mawr yw ein diolch iddi.

Afraid dweud y mae gennym yng Nghymru fwynglawdd o enwau lleoedd sy'n teilyngu pob gofal i'w trysori, ac y mae cofnodi ac astudio'r enwau hyn yn allwedd heb ei ail i hanes pobl a'u bro. Canmil diolch ichwi, felly, am roi cynnig ar y gystadleuaeth arbennig hon yn Eisteddfod Caerdydd ac am annog eraill i gystadlu.

Robin Gwyndaf

Mae Côr Eisteddfod Caerdydd yn recriwtio aelodau ar hyn o bryd. Dyma'r cyfle i gofrestru i gymryd rhan yn un o weithgareddau mwyaf yr Eisteddfod a gynhelir yng Nghaerdydd o 3-11 Awst. Manylion pellach a chofrestru https://eisteddfod.cymru/cor-eisteddfod/ymuno Dyddiad cau i gofrestru - 12 Hydref.

Cadair Hedd Wyn i Martin



Martin Huws o Gaerdydd enillodd y Gadair yng Ngŵyl Hedd Wyn ym Mhenbedw a'r gofynion oedd cerdd neu gerddi caeth neu rydd hyd at 100 o linellau am fywyd a gwaith Hedd Wyn.

Dywedodd y beirniaid, y Prifardd Sion Aled a Dr Robin Gwyndaf: 'Fe fentrodd naw i'r gystadleuaeth: pump o gerddi, neu gyfres o gerddi, yn y mesur rhydd, a phedair cerdd yn y mesur caeth, hynny yw tair awdl ac un cywydd.

'Chwilio roedden ni am gerdd, neu gyfres o gerddi, fyddai'n rhoi inni, mewn llai na 100 o linellau, ddarlun byw, diffuant o'r bardd, darlun nid yn unig o'r Hedd Wyn a ddaeth mor enwog, ond darlun hefyd o Ellis Humphrey Evans, Yr Ysgwrn, y mab fferm cyffredin, ond anghyffredin o alluog.

'Roedden ni eisiau'i weld o'n berson byw o flaen ein llygaid. Roedden ni eisiau teimlo'r galar yn ein calon pan fu farw mor drist ar faes y gad. A choeliwch fi, camp fawr iawn i unrhyw un oedd cyfleu hynny. Haws dweud na gwneud.'

Dywedodd y ddau fod cyfres o wyth o gerddi rhydd Awr Sero ar ffurf sgwrs rhwng Hedd Wyn a'i gariad. Doedd dim sôn am ei henw hi ond mae'n fwy na thebyg mai Jennie Owen, Llan Ffestiniog, oedd ym meddwl y bardd, y ferch y bu Hedd Wyn yn anfon cerddi ati hyd y diwedd ulw.

'Mae'r cerddi hyn yn rhoi inni bortread byw, tyner, o fab Yr Ysgwrn drwy ei eiriau a'i deimladau ef ei hun a geiriau a theimladau ei gariad. Mae cynildeb a diffuantrwydd y mynegiant, yr arddull sgyrsiol naturiol mewn iaith-bob-dydd, a'r dewis gofalus o ddelweddau, yn rhoi gwerth neilltuol i'r darlun.

'Yn arbennig wrth wrando ar y cerddi yn cael eu llefaru, ryden ninnau fel pe baem yng nghwmni'r llanc o filwr, wedi croesi draw i Ffrainc, yn cyd-rannu'i obeithion a'i ofnau. A rhannu hefyd deimladau calon ei gariad.

'Dyma ddyfynnu ychydig linellau.

Ei gariad
Bob nos cyn mynd i gysgu
mi welaf di yn y bore bach
yn cerdded i mewn i hyrddwynt yr hydref
i gyfeiriad y gorwel.

Y milwr

O'r diwedd, cyrraedd y llinell flaen:
sieliau'n clecian fel trenau cyflym,
yn plymio i bob man,
pistylloedd o bridd yn tasgu gyfuwch â thai.

Yng nghanol y gwallgofrwydd du
mae gronynnau o aur,
cydfilwr yn estyn llaw.

A dyma'r diwedd wedi dod a'r bardd o filwr yn ei fedd. Mae ei gariad yn ymweld â'r Ysgwrn:

Eisteddaf i a dy fam mewn cegin oer,

y llonyddwch fel saib cyn cyrch tân-belennau.

Y parsel yn cyrraedd.
Ai hwn yw'r cyfan sy ar ôl?
Ein teimladau ar wasgar, petheuach ar fwrdd.

Lapiwyd y pecyn yn daclus
am ddau grys, raser, pâr o drowsus,
sbaner bach, cyllell boced,
cudyn o wallt, waled.

Dwedodd y ddau feirniad fod cerddi Ednowain, Y Plu ac Awr Sero'n deilwng o'r Gadair. Ond oherwydd ei gyfanwaith gorau, ei portread byw, diffuant a naturiol o fab Yr Ysgwrn, Awr Sero oedd yn ennill.

Y llynedd enillodd Martin Gadair Gŵyl Aberteifi a Choron Eisteddfod Llambed. Eleni enillodd Gadair Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy a daeth yn ail yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod y Bont ac ail yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Llambed.

Dywedodd fod ei ddyled yn fawr i'r Prifeirdd Aled Gwyn a Cyril Jones ac i diwtoriaid dosbarthu cynganeddu o dan nawdd Menter Caerdydd, Emyr Davies, Y Prifardd Rhys Iorwerth a'r Prifardd Osian Rhys Jones.

Mae Martin yn ennill cadair a £100.

Ysgol Plasmawr

Profiadau bythgofiadwy *gan* Gwen Williams

Ar ôl derbyn yr anrhydedd o gael fy newis i gynrychioli Clwb Rotary Llandaf yng nghwrs y 'Rotary Youth Leadership Awards', cefais wythnos fythgofiadwy yng nghanol prydferthwch Bannau Brycheiniog. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i roi cyfle i oedolion ifanc ar draws y byd brofi a gwella eu sgiliau arwain, cyfathrebu a chydweithio mewn sefyllfaoedd heriol na fyddech yn dod ar eu traws mewn bywyd dydd i ddydd. Cynhelir tair prif weithgaredd yn ystod yr wythnos, cerdded mewn afonydd, ogofu a chanŵio.

Prif nod y cwrs yw i "annog datblygiad gwaith tîm a sgiliau arwain mewn pobl ifanc sydd â'r potensial i fod yn weithwyr proffesiynol cymunedol ac arweinwyr busnes yn y dyfodol". Llwyddodd y cwrs i wneud hyn a gweithiodd pawb yn dda mewn tîm wrth i'n haelodau ein harwain drwy bob gweithgaredd. Daeth bawb yn ffrindiau agos iawn ac roedd wynebu'n ofnau o flaen dieithriaid yn golygu eu bod yn cael mewnwelediad i'ch personoliaeth, ni fyddai rhywun yn gweld o ddydd i ddydd ac felly roedden yn dod i nabod ein gilydd yn dda iawn mewn cyfnod byr o amser. Roedd helpu pobl goresgyn eu hofnau hefyd yn foddhaol, gan wybod bod eich anogaeth wedi helpu mewn rhyw ffordd.

Uchafbwynt yr wythnos oedd y Gystadleuaeth Tîm ar y diwrnod olaf. Ar y diwrnod hwn, daeth yn amlwg pwy oedd yn gystadleuol am ein bod i gyd eisiau ennill cymaint. Nid wyf erioed wedi chwerthin cymaint a wnes i yn ystod y ras gychod a welodd pob un o'r pum cwch yn suddo i'r gwaelod yr eiliad aeth unrhyw un i mewn iddynt!. Roedd dringo Pen-Y-Fan hefyd yn brofiad anhygoel gan ei fod yn weithgaredd lle gallem weld ein cyflawniad ein hun a chyflawniad y tîm. Roedd yn wych cael y cyfle i gwrdd â phobl newydd heb gymorth cyfryngau cymdeithasol. Roedd diffyg gwasanaeth a wi-fi yn golygu na allwn ddibynnu ar ein proffiliau Facebook neu Twitter i gyflwyno ein hunain; roedd angen i ni gymryd rhan yn yr hen gêm o "dywedwch eich enw ac un peth diddorol amdanoch".

Eto, hoffwn ddiolch i Glwb Rotary Llandaf am roi'r cyfle i fi fynd ar y cwrs hwn sydd wedi agor cymaint o ddrysau i mi o ran datblygu sgiliau a chyfleoedd yn y dyfodol.

Taith gyfnewid i Sakai, Fukui prefecture, Japan - Haf 2017

Dathliad o 25 mlynedd mewn partneriaeth gydag Ysgolion o Japan. Braint enfawr oedd teithio gyda disgyblion brwdfrydig o Ysgol Plasmawr a Cantonian. Rhai disgyblion yn teithio am y tro cyntaf, rhai yn dychwelyd am yr ail dro.

Cawsom brofiadau anhygoel o ymweld ag ysgolion gyda'r disgyblion yn mynychu gwersi. Rhyfedd gweld gwahaniaethau amrywiol mewn arddulliau dysgu a disgwyliadau. Roedd sawl uchafbwynt yn ystod y dydd megis y 10 munud swyddogol ar yr amserlen er mwyn i bob disgybl yn yr ysgol frwsio eu dannedd, gwasanaethau bythgofiadwy mewn Neuaddau anferthol a'r mwynhad o weld disgyblion yn trefnu ac yn gweini cinio ysgol i'w cyfoedion.

Cafwyd croeso aruthrol i bob plentyn tra'n aros gyda'u teuluoedd, gyda phawb yn mwynhau profiadau byw gyda theuluoedd gwahanol. Roedd yn anochel y byddai llawer o ddagrau ar ddiwedd y daith ac yn sicr fe fydd croeso i Ymwelwyr Siapan wrth ddychwelyd ym Mis Mawrth 2018.

Megan Meade – Profiad yr Amazon

Tra bod rhan helaeth o bobl ifanc Cymru yn mwynhau eu hunain ym Maes B dros yr haf, roeddwn i dros 6000 milltir i ffwrdd ar alldaith yng nghoedwig law yr Amazon am bump wythnos! Roedd yr alldaith yn rhan o gynllun y 'British Exploring Society' ac es i gyda 40 o bobl ifanc arall a 15 arweinydd o Brydain. Er hyn, fi oedd yr unig Gymraes!

Ar ôl tri hediad, taith fws 10 awr trwy'r Andes a thaith am awr ar gwch, cyrhaeddom ni ein base camp, sef ardal ynysig o'r jwngl heb ddim cyfleusterau; roedd yn rhaid ymolchi yn yr afon a defnyddio latrin (llain o dir a ddefnyddir fel tŷ bach). Mewn diwrnod nodweddiadol yn y jwngl roeddwn i yn deffro gyda'r haul am 6yb ac yn cerdded i lawr i'r afon i gasglu dŵr ar gyfer ein brecwast o uwd. Bydden yna yn mynd i gerdded, naill ai i'r afon Olivetti i'w mapio neu i gasglu recordiadau sŵn a nodi'r rhywogaethau roeddwn yn gweld er mwyn astudio bioamrywiaeth yr ardal a phatrymau ymddygiad rhai rhywogaethau. Yn y nosweithiau, bydden gan amlaf yn coginio ar gyfer ein grŵp ni o 11, yn mynd am dro i weld y bywyd gwyllt a gorwedd mewn hamoc yn ysgrifennu ein dyddiaduron. Un noson roeddwn mor ffodus i ddal Boa Constrictor wrth ymyl ein gwersyll a chael ein deffro gan Howler Monkeys uwch ein pebyll! Ar ôl treulio tair wythnos yma, symudon ni i ochr arall yr afon i bentref er mwyn creu gerddi bio i'r gymuned ac i weithio ar blanhigfa fanana. Roedd y gwaith yn anodd ac yn hirwyntog ond roedd gweld pa mor ddiolchgar oedd y gymuned a'r effaith bydd ein gwaith yn cael ar eu bywydau yn gwneud pob awr o waith yn werth chweil.

un o brosiectau Megan yn yr Amazon

Un o fuddion mawr ges i o'r alldaith oedd y cynnydd yn fy hyder, boed hynny yn hyder i siarad Sbaeneg gyda'r bobl leol a rhannu ein gwaith gyda nhw, neu'r hyder i gwrdd â phobl newydd a gwneud pethau y tu hwnt i'm mhrofiadau blaenorol. Rwyf wedi sylweddoli nad yw moethau o ddydd i ddydd yn bwysig i mi gan nad oeddwn wedi gweld eisiau fy ffôn na chwaith unrhyw gyfleusterau. Ond yr hyn yr oeddwn yn gweld eisiau oedd teulu, ffrindiau a chael siarad Cymraeg, sef beth wnaeth i mi sylweddoli pwysigrwydd Cymru i mi. Mae teithio i fannau anhygoel y byd yn brofiad bythgofiadwy ond Cymru fydd 'adref' o hyd!

Ysgol Bro Morgannwg

Pen-blwydd Hapus i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Fis diwethaf agorodd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ei drysau am y deunawfed tro. Sefydlwyd yr ysgol yn y flwyddyn 2000 fel yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf ym Mro Morgannwg. Ers y dyddiau cynnar hynny gyda 123 disgybl mae'r ysgol wedi mynd o nerth i nerth ac wrth i'r galw am addysg Gymraeg gynyddu yn y Fro mae niferoedd yr ysgol ar gynnydd yn flynyddol. Erbyn hyn mae'r ysgol yn addysgu disgyblion o 3 – 19 oed ac yn lletya 1,116 o ddisgyblion.

Bydd gwaith adeiladu cychwynnol i ehangu safle presennol yr ysgol yn dechrau yn 2018—2019. Dywedodd y Pennaeth Mr Hywel Price, "Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn y tŵf sydd yn addysg Gymraeg yma ym Mro Morgannwg. Bydd y gwaith yn cychwyn gyda chodi adeilad ychwanegol ar y safle fydd yn cynnwys ystafelloedd dysgu yn gweddu i ofynion yr unfed ganrif ar hugain. Yn ogystal bydd datblygiadau megis neuadd chwaraeon, cae 3G ac o bosib ffreutur yn rhan o'r cynlluniau."

Diwrnodau Cyntaf y 6ed Dosbarth

Croesawyd disgyblion Blwyddyn 12 yn ôl i'r ysgol fis Medi. Aed ati yn syth i anwytho'r disgyblion a'u paratoi ar gyfer eu hastudiaethau yn y Chweched Dosbarth. Aeth y disgyblion i Fae Caerdydd ac aros yng Nghanolfan yr Urdd am ddwy noson. Gwnaed amrywiaeth o weithgareddau er mwyn datblygu gwaith tîm.

Dathlwyd Diwrnod Ieithoedd y byd mewn steil eleni ym Mro Morgannwg gyda disgyblion a staff yn gwisgo dillad amrywiaeth o wledydd. Cynhaliwyd gweithgareddau gan yr Adran Ieithoedd Modern ac aelodau'r Chweched yn ystod amser cinio. Cafwyd diwrnod hwyliog a llwyddiannus.

Chwaraeon

Trawsgwlad Rhynglysol

Cynhaliwyd diwrnod o gystadlaethau trawsgwlad gan yr adran Addysg Gorfforol ddechrau mis Medi. Roedd blynyddoedd 7,8,9 a 10 wedi cael cyfle i redeg yn ystod y dydd ac fe gymerodd 99% o ddisgyblion rhan yn y diwrnod.

Cafwyd llwyddiant arbennig gan un teulu wrth i Glesni Siôn ennill ras merched Blwyddyn 10, Gruff Siôn ennill ras bechgyn blwyddyn 9 ac Ifan Siôn ennill ras bechgyn blwyddyn 7. Llongyfarchiadau mawr i'r tri!

Llys Illtud enillodd y dydd gyda Llys Cadog yn ail a Mihangel yn drydydd.

Rygbi

Mae Lewys Williams a Mason Grady wedi cael lle yng ngharfan y Gleision. Mae'r ddau yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddechrau ymarfer gyda'r tîm a gobeithio cael chwarae yn fuan.

Llwyddiant Pêl droed i Ferched

Llongyfarchiadau mawr i Manon Pearce a Gwenno Goode o Flwyddyn 8 am gael lle yng ngharfan Pêl-droed Merched Cymru o dan 13. Mae pêl droed i ferched wedi mynd o nerth i nerth ym Mro Morgannwg yn y blynyddoedd diwethaf o dan ofal Miss Bethan Price.

Yn ogystal, mae Geraint Ap Cooke o flwyddyn 11 wedi ennill ei le yn nhîm caiacio Cymru. Mae hyn yn ddatblygiad cyffrous i Geraint a dymunwn y gorau iddo.

Mae Lena Davies o flwyddyn 8 wedi cael ei dewis i gynrychioli carfan hoci o dan 14 Caerdydd a'r Fro. Mae Lena'n chwaraewr hoci talentog sydd â dyfodol disglair o'i blaen. Pob lwc iddi hi.

Cyffro'r Fagloriaeth Gymraeg ym Mro Morgannwg

Mae Gwaith Cymunedol Blwyddyn 11 ar gyfer eu Bagloriaeth Cymru wedi cychwyn. Bydd Blwyddyn 11 yn gwneud llawer o waith gwirfoddol fel rhan o'r her.

Bydd rhai disgyblion yn hyfforddi Blwyddyn 8 ar Fasnach Deg ac Entrepreneuriaeth a gweithio gyda Blwyddyn 6 wrth hyfforddi chwaraeon. Bydd grwpiau hefyd yn gwella amgylchfyd allanol yr ysgol a chynorthwyo gyda Chelf a Chrefft yn yr Adran Gynradd.

Yn ogystal, mae un prosiect gwerthfawr arall wedi dechrau sef, cynorthwyo Banc Bwyd y Fro. Aeth 12 disgybl ar ymweliad â'r Banc Bwyd ac mae'r disgyblion yn bwriadu casglu bwydydd ar ran Banc Bwyd y Fro ar gyfer aelodau o'r gymuned sydd mewn crisis.

Ysgol y Wern

Fe gafodd rai o Flwyddyn 5 ddiwrnod i'r Brenin yng Nghastell Caerdydd ar ddiwrnod Roald Dahl. Gwahoddwyd y plant i'r lansiad o fodel Lego anhygoel James a'r Eirinen Wlanog, oedd yn cynnwys dros 30,000 o ddarnau Lego! Yn ogystal â hyn, buont yng nghwmni Bardd Plant Cymru sef Casia Wiliam. Cafwyd llond lle o straeon a disgrifiadau arbennig gan y plant o dan arweiniad Casia. Efallai i chi weld a chlywed rhai o'r plant yn darllen eu gwaith ar y teledu ar ôl yr ymweliad! (gweler y llun)

Dymunwn yn dda i un o ddisgyblion Blwyddyn 6 sef Louise Harvey a fydd yn perfformio rhan Ianto yn y sioe Tiger Bay yng nghanolfan y Mileniwm ym mis Tachwedd. Mae nifer o'r ysgol wedi prynu tocynnau yn barod!

Ysgol Glantaf

Siarad Cyhoeddus
Da iawn i'r tîm o 8 a fu´n cystadlu yn Lerpwl yng nghystadleuaeth ddadlau'r European Youth Parliament. Da iawn i Non Scott, Ellie Ashton Williams, Lewis Vinnicombe, Sophie Irving, Lani Jones, Andrew Forde, Nia Jefferies a Megan Eckley. Llongyfarchiadau gwresog i Ellie Ashton Williams am gael ei dewis i gystadlu yn y rownd ryngwladol.

Trawsgwlad
Cafwyd gŵyl traws gwlad dda eleni gyda niferoedd uchel yn rhedeg. Llongyfarchiadau i lys Teilo ar ennill y Traws Gwlad gyda 410 o bwyntiau, Dewi yn 2il gyda 383 o bwyntiau, Illtud yn 3ydd gyda 365 o bwyntiau a Dyfrig yn 4ydd gyda 340 bwyntiau

Pencampwyr Prydain!
Ym mis Awst eleni, enillodd tîm Bl. 9 Bencampwriaeth Rygbi 13 Cymru a Lloegr am yr ail dro mewn tair blynedd.
Y canlyniad oedd 28-0 i Glantaf a hynny yn erbyn Ysgol Ramadeg Mirfield o Orllewin Sir Efrog yng Nghlwb Rygbi Richmond yn Llundain ar brynhawn Gwener, Awst 25.
Cyn y gêm dywedodd capten Glantaf, Gwilym Evans fod y garfan yn "disgwyl gêm galed ond un gyffrous, ac rwy'n gobeithio gallwn wneud yn siŵr y cawn y canlyniad cywir".
Unwaith yn unig y mae'r bechgyn wedi colli gêm yn eu hanes yn ystod y gystadleuaeth hon, wedi buddugoliaeth hanesyddol yn Stadiwm Wembley ddwy flynedd yn ôl pan oeddent ym mlwyddyn 7.
Glantaf a ddechreuodd orau gyda gwaith da gan Harri Griffiths wrth iddo fynd trwy'r llinell gefn i sgorio cais. Troswyd gan Jac Lloyd. Daeth dwy gais haeddiannol yn agos at ei gilydd, yn gyntaf drwy Rhodri Thomas ar ôl i Iwan Jones achosi trafferth i amddiffynwyr Mirfield ynghanol y cae gan eu rhoi allan o le. Troswyd gan Lloyd eto. Sgoriwyd yr ail yn fuan wedyn wrth i Glantaf gynyddu eu mantais pan redodd Josh Atkinson i lawr yr ochr i sgorio'r cais. 16-0 i fyny ar yr hanner.
Daeth Mirfield yn agos at sgorio yn gynnar yn yr ail hanner ond pasiwyd y bêl ymlaen felly nid oedd gwobr am eu hymdrechion. Aeth Glantaf yn bellach ar y blaen ar ôl ymdrechion Atkinson wrth iddo sgorio ei ail gais yn hamddenol dros y llinell. Troswyd eto gan Lloyd. Iwan Jones wnaeth orffen llwyddiant Glantaf wrth iddo fynd i mewn ac allan trwy amddiffynwyr blinedig Mirfield ac roedd cic Lloyd yn llwyddiannus unwaith eto. Rydym yn falch iawn o'r bechgyn.

Ysgol Pen-y-Groes

Blwyddyn newydd
Mae'n flwyddyn newydd gyffrous yma yn Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes a nifer o staff newydd wedi ymuno â'r ysgol. Rydym yn estyn croeso mawr i Mrs Sian Giles, Mr Alex Lewis, Miss Lyndsey Bailey a Mr Rhys Lewis ac yn gobeithio bydd y pedwar yn hapus iawn yma ym Mhen-y-Groes.

Clybiau cyffrous
Rydym yn ffodus iawn bod nifer o glybiau cyffrous wedi cychwyn yn mis Medi. Mae swn soniarus iawn yn llewni coridorau'r ysgol bob prynhawn dydd Llun yng nghlwb ukulele yr ysgol! Yn ogystal, mae gennym Glwb Perfformio ble rydym yn ymarfer ein sgiliau actio, dawnsio a chanu, Clwb Gymnasteg y Cyfnod Sylfaen, Clwb Pêl-rwyd, Clwb Gwyddoniaeth Gwyllt a Clwb Pêl-droed. Diolch yn fawr i'r holl athrawon a chynorthwywyr sy'n darparu'r clybiau yma i ni.

Taith Dysgu y Disgybl
Y flwyddyn yma rydym wedi cychwyn taith dysgu y disgybl. Fel disgyblion rydym yn cael cyfle i ymweld â dosbarthiadau yr ysgol er mwyn gweld arfer dda ac yn cael cyfle i holi'r disgyblion am eu dysgu ac addysgu.

Iestyn Nelson a Eloise Roberts (Gohebwyr y Groes)

Rydym wrth ein bodd yn gwneud hyn ac yn mwynhau adrodd nôl i Mrs Fenner am yr holl rydym wedi gweld.

Clustiau Caredig
Cafodd rhai o ddisgyblion Bl. 5 a 6 hyfforddiant "Clustiau Caredig" yr wythnos ddiwethaf. Nhw nawr yw clustiau caredig yr ysgol ac wedi eu hyfforddi sut i wrando a delio gyda gofidiau a phroblemau. Mae hyn yn wych ac rydym yn hapus iawn bod cymaint ohonynt yn crwydro'r iard bob amser cinio yn helpu i wneud Ysgol Pen-y -Groes yn ysgol hapus a chyfeillgar.

Cacennau Codi Arian
Ar fore Gwener y 29fed o Fedi cynhaliwyd bore coffi Mcmillan yn yr ysgol i godi arian i'r elusen arbennig yma. Cafodd ei drefnu gan ein pwyllgor "Dinasyddion y Dyfodol" a daeth plant, rhieni a staff â chyfraniadau hael iawn o gacennau mewn i werthu. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am godi arian i elusen arbennig

Trip "Taith yr Iaith"
Yn ogystal, ar ddydd Gwener y 29fed o Fedi aeth Cyfnod Allweddol 2 am drip "Taith yr Iaith" i'r Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd. Cafodd pawb amser gwych ac roedd yn llawn gwybodaeth diddorol am yr iaith Gymraeg.

Diolch am ddarllen ein colofn. Tan tro nesaf!

ADDYSG GYMRAEG – SEFYLLFA MEDI 2017 YN DRYCHINEBUS

Fel rwyf wedi adrodd o'r blaen roedd 847 disgybl wedi gosod lle mewn addysg Gymraeg gynradd fel dewis cyntaf a gosododd y sir 726 ohonynt yn un o'r 17 ysgol Gymraeg gan lenwi 7 i'r ymylon a gadael 114 lle ar gael yn y 10 arall. Doedd y patrwm ddim yn anarferol er fod cyfanswm y gorlif o'r 4 ysgol yn y canol gogleddol yn destun pryder sef 68 yn methu cael lle yn ysgolion Pencae, Melin Gruffydd, Y Wern a Mynyddbychan.

Roedd y sefyllfa erbyn canol Mehefin yn achosi mwy o bryder gydag 11 o'r 726 wedi gwrthod yr hyn a gynigwyd am ba reswm bynnag a 6 disgybl newydd wedi derbyn lle, yn gostwng y nifer i ddechrau Medi nesaf i 721, yn waeth na'r sefyllfa fis Ebrill. Dywedwyd fod llawer o apeliadau o hyd yn y system ac roeddwn yn disgwyl y byddai rhieni yn derbyn nad oedd dewis ond i gymryd un o'r llefydd ar gael mewn ysgol lai cyfleus fel sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd a fu. Roeddwn yn disgwyl y byddai rhwng 60 ac 80 yn cyfaddawdu ar ail orau.

Rwyf wedi cael siom mawr i gael ar ddeall taw'r sefyllfa bresennol yw bod 720 wedi sicrhau lle gyda 27 o hyd ar y rhestr aros - yn amlwg ar gyfer lle yn un o'r ysgolion llawn. Dywedir hefyd bod pob apêl wedi'i glywed. Os na fydd y 27 sy'n aros yn derbyn un o'r 120 lle ar gael yn y 10 ysgol â lle ni fydd y cyfanswm o 720 yn cynyddu sef 27 yn llai na'r 747 a dderbyniwyd llynedd.

Y broblem yw bod tua 60 o'r llefydd gwag ar gael yn y 2 ysgol ddeheuol (Hamadryad a Glanmorfa) sy'n symud i adeiladau newydd na fydd ar gael tan Fedi 2018 ac mae hanes yn dangos bod rhieni yn amheus o ysgolion ag adeiladau yn yr arfaeth. Gweler hanes y 4 ysgol newydd yn 2007 a Glan Ceubal yn dyddio o 2009 y 5 wedi tyfu wrth gyrraedd adeiladau parhaol gyda dalgylch sefydlog.

Mae gwaith yn wynebu RhAG i ddod o hyd i'r rhesymau llawn am golli'r 127 a ddewisodd addysg Gymraeg ond na fu'n fodlon i dderbyn hyd yn hyn ysgol nad oedd y dewis cyntaf.

Michael Jones

Ysgol Pen y Garth

Llongyfarchiadau i Deri Hassell am ennill pencampwriaeth gymnasteg Cymru gyfan o dan 10 oed. Pob lwc i ti yn rownd derfynol Prydain Fawr

---

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ar gychwyn blwyddyn newydd o weithgaredd diddorol croesawodd y cadeirydd newydd, Gwenda Morgan, nifer anrhydeddus o aelodau ffyddlon i'r cyfarfod blynyddol. Diolchwyd i Allan Pickard am ei arweiniad dros y ddwy flynedd flaenorol. Hefyd darllenwyd ei adroddiad yn ei absenoldeb, gan bwysleisio cael cyfarfodydd amrywiol a phleserus yr holl amser. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd, Menna Brown, gofnodion cyfarfod blynyddol 2016, a'r rhaglen 2017-18, a derbyniwyd y fantolen ariannol a baratowyd gan Robin Brown. Ail-etholwyd y pwyllgor a chroesawyd Eirlys Roberts fel Is-gadeirydd. Yn ei hanerchiad agoriadol cyflwynodd Gwenda enghreifftiau amrywiol a doniol o lysenwau yn ei bro enedigol ym Mrynaman.

Ar Fedi 20fed y siaradwr gwadd oedd Ashok Ahir, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd 2018. Bu'n newyddiadurwr, golygydd, ac awdur rhaglenni yn y cyfryngau, ac yn Bennaeth Gwleidyddol y BBC. Enillodd BAFTA Cymru am ei waith. Nawr, mae'n gyfarwyddwr ei gwmni ei hun - Mela - yn yr Hen Lyfrgell. Fel dysgwr, soniodd gymaint oedd ei fraint i arwain y paratoadau ar gyfer yr Eisteddfod - sydd iddo ef yn ganolog i ddyfodol yr iaith. Credai fod ganddo rôl i fod yn un o'r Llysgenhadon i gyflwyno Eisteddfod 2018 ar ei "newydd" wedd, ac i symud ymlaen - "Eisteddfod y dyfodol i fod yn llwyfan rhyngwladol". Pwysleisiodd fod y gweithgareddau i'w cynnal yn bennaf o gwmpas Canolfan y Mileniwm a'r Senedd, gan ddangos pob agwedd o'r Ŵyl i'r wlad, y Cymry, y di-Gymraeg, Prydain a'r byd.

Dymunwyd yn dda iddo ef a'i bwyllgorau yn ystod y flwyddyn gan Gwenda Morgan a'r aelodau.

Croesawyd Linda Gruffydd, Nesta Williams, Linda Lewis a'r Parchedig Hugh Matthews fel aelodau newydd, a llongyfarchwyd Eirlys Loddo yn 90 oed. Mae croeso cynnes i aelodau eraill i ymuno â'r Aelwyd - manylion yn y Digwyddiadur neu ffoniwch (029) 2025 4679.

Merched y Wawr Bro Radur

Cafwyd noson hyfryd o fywiog yng Nghapel y Methodistiaid yn Radur yng nghwmni Sian Lewis, prif weithredwr Menter Caerdydd i gychwyn ein tymor newydd o weithgaredd ar ddechrau Medi. Rhwydd oedd gweld pam bod y Fenter wedi llwyddo ac wedi ehangu'r ddarpariaeth i Gymry'r ddinas ar ôl gwrando ar frwdfrydedd Sian a synhwyro'r egni a'r weledigaeth sydd ganddi. Bu hi'n amlinellu gwaith y Fenter a sôn am lwyddiant ysgubol Tafwyl - gŵyl sydd erbyn hyn yn rhy fawr i'w chartref gwreiddiol yn y castell.

Ar ddiwedd y noson buom yn dathlu pen-blwydd Merched y Wawr yn 50 oed.

Shirley Williams, Sian Lewis a Linda Gruffudd

Roedd un o'n haelodau, sef Ruth Davies, wedi coginio 70 o deisennau bach ac wedi addurno pob un gyda'r rhif 50. Buom hefyd yn llongyfarch Ruth ar gynrychioli Rhanbarth y De-ddwyrain yn Sioe Llanelwedd ac ar ddod yn bedwerydd dros Gymru gyfan.

Roedd cyfle hyfryd i ddymuno'n dda i Shirley Williams wrth iddi orffen fel swyddog datblygu Merched y Wawr yn y De-ddwyrain. Bydd colled ar ei hôl.

Bellach mae'r gangen yn agosáu at 70 mewn nifer a phleser oedd croesawu nifer o aelodau newydd. Mae'r gangen yn cwrdd ar y nos Fercher cyntaf ym mhob mis. Croeso i hyd yn oed mwy o aelodau newydd!

Merched y Wawr Caerdydd

Neuadd lawn-dop o ferched brwd groesawodd Caryl Roese i annerch noson agoriadol y gangen ar 12 Medi. Gwraig amryddawn yw Caryl, yn ymddiddori mewn amrywiol feysydd ac yn abl i droi ei llaw at sawl crefft. Y tro hwn, rhoddodd gipolwg rhyfeddol ar emwaith cain rhai o lwythau gogledd Affrica sy'n byw ym Moroco, Mali, Ethiopia, Ghana, Algeria, Yemen a'r Cameroon.

Gwelwyd enghreifftiau o ferched a dynion wedi addurno'u hunain ar gyfer gwyliau arbennig a seremonïau, yn llwythog o emwaith ac o aur, arian neu bres a chopr a'r rheiny wedi eu ffurfio'n gain gan grefftwyr profiadol. Mae yna Iddewon ym Moroco sy'n creu ffiligri tlws mewn aur. Clywyd am y Tuareg, gofaint arian yn ardal y Sahara, yn gweithio campweithiau a'u hunig offer yw gyrrwr sgriwiau, ffeil a morthwyl. Roedd i sawl un o'r darnau ystyr symbolaidd o bwys yn y gwahanol seremonïau. Clywyd am y Griots sy'n gweithredu fel ein clerwyr ni gynt, yn adrodd straeon a chanu mewn seremonïau, a'u gwisg yn cynnwys gleiniau mawr o ambr neu o garnelian am eu gwddf. Penwisgoedd, clustdlysau, breichledau, modrwyon, ffibwla (yn gwneud gwaith broets) a welwyd, a'r cwbl yn wych odiaeth. Ond ar ben hyn i gyd, roedd Caryl wedi dod ag enghreifftiau o'r gwaith gyda hi! Roedd yn bosibl gweld y crefftwaith ar ambell i groes ac addurn ac i deimlo pwysau'r gemwaith a gwerthfawrogi eu lliwiau melyn, oren frown a glas.

Caryl, Rhiannon, Lona a'r gemwaith

Rhiannon Gregory fu'n llywio'r noson a chydymdeimlodd yn ddwys â Jean Jones a Gwenda Morgan a gollodd eu gŵr yn ystod yr haf. Llongyfarchiadau i Myfanwy Jarman ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Lisa Lewis, arbenigwr ar y ddrama, a Helen James, sy'n anthropolegydd a chymdeithasegydd, fu'n annerch cyfarfod cyntaf y tymor ar 19 Medi. Mae'r ddwy'n rhan o dîm rhyngwladol a dderbyniodd grant am bedair blynedd gan Sefydliad Leverhulme i weithio ar ymchwil i ddylanwad diwylliant y Cymry ar bobl gogledd ddwyrain India (ardal sy'n edrych i lawr ar wastadedd Bangladesh) lle bu Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn cenhadu o 1841 ymlaen. *Bryniau Casia* neu *Fryniau'r Glaw* oedd enw'r maes cenhadol ar lafar gwlad ymysg aelodau'r enwad. Roedd enwau mannau fel Jowai, Cherapungi a Shillong mor gyfarwydd i'w plant â Rhosmeirch neu Dregaron.

Mae Thomas Jones, y cenhadwr cyntaf, yn arwr crefyddol a seciwlar i'r Casi, gan mai trwy ei waith e y cawsant y wyddor gyntaf yn eu hiaith. *Hen Wlad Fy Nhadau* yw eu hanthem a chenir emyn-donau Cymru yno heddiw mewn gwasanaethau lle bydd miloedd yn bresennol. Ar y llaw arall, diddorol sylwi fod alaw Fengalaidd i'r emyn-dôn *Diolch am y Cynhaeaf.*

Yn ogystal â Lisa a Helen, mae'r tîm yn cynnwys ffotograffydd o India, ynghyd â Chasi sy'n arbenigwr ar lên gwerin a barddoniaeth, a'r cerddor Gareth Bonello. Maen nhw'n ymdrechu i ddweud rhywbeth newydd am y berthynas ddiwylliannol ryfedd honno, ganrif a hanner yn ôl, trwy waith creadigol. Mae Lisa a Helen yn ymddiddori'n arbennig yng nghyfraniad y merched o Gymry a fu yno'n athrawon a nyrsys ac yn y cannoedd o filoedd o lythyron gwerthfawr oddi wrthyn nhw sy'n cael eu cadw mewn creirfa yng Nghymru ac yn anodd mynd atyn nhw.

Dwyfor Jones oedd llywydd y noson a chydymdeimlodd yn fawr ag Ann Brain, Delun Callow a Gwenda Morgan, yn eu profedigaeth. Anfonwyd cofion at Gwyneth Jennings, Dyfri Jones a Falmai Griffiths sydd yn wael eu hiechyd ar hyn o bryd.

Helen, Dwyfor a Lisa

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Roedd cyfarfod cyntaf (Medi 18fed) ein tymor newydd dan ofal dau o'n swyddogion. Seiliodd Cerian Angharad (cyd-ysgrifennydd) ei chyflwyniad ar ymholiadau ganddi parthed enwau dyfeiswyr, yn ferched a, gwell fyth, o Gymru. Er mawr gywilydd i fwyafrif y rhai oedd yn bresennol, methiant llwyr oedd ein hymdrechion i ateb cwestiynau a osododd Cerian. Er mwyn i chi gael blas ar y profiad, dyma enghreifftiau. A wyddoch fod Mary Anderson (1866-1953) wedi dyfeisio'r system at lanhau ffenestr flaen cerbydau? A wyddoch chi mai Marie Van Britton-Brown (1922-1999) fu'n gyfrifol am lunio cylched caeedig teledu (CCTV)? Beth oedd camp Josephine Cochrane (1839-1913)? Pa ferch (1946-2014) ddyfeisiodd y drefn 'galwad yn aros' ar eich teleffon? Cewch yr atebion yn ein cyfarfod nesaf.

Aeth y drafodaeth i gyfeiriad diffiniad 'dyfais'. Ai rhywbeth sy'n adnabyddus yn gyhoeddus yw dyfais? Go brin, mae pob gwyddor yn dibynnu'n helaeth ar ddata, hynny yw, mesuriadau sy'n ffrwyth cyfarpar at bwrpas penodol. Mae'r cynnydd mewn gwyddoniaeth yn deillio o welliannau mewn cyfarpar a hynny'n aml yn digwydd oherwydd bod rhyw berson wedi gweld angen am ddull gwell o fesur. Fel arfer nid yw'r gwelliant hwn yn hysbys i'r cyhoedd.

Cafwyd yr ail gyfraniad gan Gadeirydd y Gymdeithas (Neville Evans) a rannodd ei brofiad o ddarllen llyfr Rowland Wynne (un o'n haelodau) yn dwyn y teitl *Evan James Williams - ffisegydd yr atom*. Anodd peidio â phentyrru ansoddeiriau canmoliaethus am yr athrylith hwn o bentref Cwmsychpant ger Llanbedr-pont Steffan. Ewch am dro i'r pentref i weld y plac sy ar gartref ei fagwraeth, Brynawel, sy dros y ffordd i fynwent y capel lle mae ei fedd. Ar wahân i gydweithio, ysgwydd-wrth-ysgwydd gyda chewri ffiseg perfeddion yr atom yn y ganrif ddiwethaf, cofir am EJ yn arloesi dull newydd, pan oedd ar secondiad, o geisio gwrthwynebu bygythiad brawychus y llongau tanfor Almaenig (U-boats). Gelwid y dull Ymchwil Gweithredol (Operational Research) gyda'i wreiddiau mewn ystadegaeth. Mae'r llyfr yn cyfeirio at y gwahaniaeth barn (ffyrnig ar brydiau) rhwng EJ a'i ddadansoddi cain ac eraill a ddadleuai mai mwy a mwy o fomio oedd y ffordd ymlaen. EJ a orfu. Ai dyfais oedd dull EJ?

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Hydref 16eg pan fyddwn yn trafod gwyddoniaeth cyfieithu. Dewch yn llu i Ystafell 077 ym mhrif adeilad y brifysgol. Mae digonedd o le parcio oddiar Park Place.

EGLWYS Y TABERNACL

Priodas

Llongyfarchwn Meleri Beynon a Gruffydd Davies ar eu priodas yn y Tabernacl. Mae Gruffydd yn gweithio fel cynhyrchydd gyda chwmni teledu ac mae Meleri yn athrawes Ysgol Gynradd Ieol.

Canlyniadau graddau

Rhannwn lawenydd ein cyfeillion ifanc a wynebodd arholiadau Safon 'A' a TGAU yn ystod y flwyddyn, gan dderbyn eu canlyniadau yn ystod mis Awst. Hefyd daeth llwyddiant Rhodri Sennitt i'n sylw yn ddiweddar ac yntau wedi derbyn gradd meistr (MSc) mewn Mathemateg o Goleg Prifysgol Llundain.

Cynllun Drysau Agored

Buom yn cydweithio gyda'r grŵp yma ers sawl blwyddyn bellach, lle bydd adeiladau crefyddol a seciwlar ar agor i unrhyw ymwelydd alw heibio i weld, ac os oes ganddynt ddiddordeb, i glywed rhywfaint o hanes y capel a natur yr eglwys. Bydd yr organyddion yn cyfrannu i'r achlysur ynghyd ac Ann Williams ar y delyn.

Cyhoeddi llyfr

Bydd llawer wedi gwerthfawrogi myfyrdodau'r Tabernacl a rannwyd gan Hugh Matthews yn ystod 2016. Bellach maent wedi eu cyhoeddi fel llyfr gan Gyhoeddiadau'r Gair o dan y teitl '*Gorfoledd y Gair*'.

Elin Mair Burns

Er i Elin Mair ffarwelio gydag Ysgol Sul y Tabernacl ers blynyddoedd, nodwn gyda balchder ei hapwyntiad fel Dirprwy Uchel Gomisiynydd Prydain ym Mhacistan. Bu yng ngwasanaeth y llywodraeth Brydeinig ers tro, a dymunwn yn dda iddi wrth dderbyn y cyfrifoldeb cyffrous hwn.

Y Gymdeithas Nos Fawrth

Cafwyd cyfle i ni fynd ar daith gerdded gyda Rachel Prothero o gwmpas mynwent Cathays ar nos Fawrth Medi 26. Mae llawer o hanes y Tabernacl ynghlwm â'r fynwent hon. Bu Graham Thomas yn hael gyda'i amser wrth ofalu am rai o'r beddau hyn.

Bore Coffi Dydd Mercher

Diolch i Eluned ac Owen Rook am eu cymwynas yn agor eu cartref ym mis Awst. Roedd y bore coffi nesaf yng nghartref Linda Gruffudd ganol Medi a derbyniwyd yr un croeso cynnes.

EGLWYS MINNY STREET

Estynnwn groeso i bawb i'n cyfarfodydd ar y Sul (10.30 a 18.00) ac yn ystod yr wythnos - beth amdani? Yn ogystal â'r oedfaon arferol uchod bydd Oedfa Foreol Gynnar am 9.30, Hydref 8.

Sul 22 bydd yr Oedfa Foreol a'r Oedfa Hwyrol dan arweiniad Y Parchedig Prys ap Gwynfor. Bydd Ysgol Sul fore'r 15fed, yr 22ain a'r 29ain. Aelodau ardal Llandaf a Phontcanna fydd â gofal yr Oedfa Foreol Hydref 29 a'r Cylch Elusen fydd wrth yr Oedfa Hwyrol.

Ar gyfer pobol ifanc yn eu harddegau cynhelir sesiynau PIMS ddydd Llun, Hydref 9 a Hydref 23 o 19.00 tan 20.30. Os oes gennych chi blantos bach dewch â nhw i Fabimini ddydd Gwener Hydref 6 a Hydref 20 rhwng 9:45 a 11:15. I'r oedolion, bydd Y Gymdeithas Ddiwylliannol yn ail-ddechrau nos Fawrth Hydref 3 gyda Hefin Mathias yn sôn am 'David Davies Llandinam a'i waith dros heddwch byd'. Hefyd Hydref 17 cawn gwmni Elen Elis i sôn am ei gwaith gyda'r Eisteddfod. Nos Lun 16eg rhwng 19.30 a 20.30 bydd cyfle i fod yn greadigol yn Genesis a fore Gwener 13eg am 10.00 ymunwch â ni am baned a thrafodaeth yn Llynyddwch yng nghaffi Terra Nova, Parc Llyn y Rhath. Am 19.30 nos Fawrth 10fed a'r 24ain 'Pobl yr Hen Destament' fydd testun Bethania yng nghartre un o'n haelodau. 12.00 pnawn Mercher 11eg ac am 19.30 nos Sul 15fed bydd Koinônia i'r rhai fydd wedi archebu ymlaen llaw.

Aelodau newydd: Wrth i ni ail-gydio yng ngweithgarwch yr Eglwys wedi cyfnod tawel dros yr haf, hyfrydwch oedd cael croesawu tri o ieuenctid yr Eglwys i gyflawn aelodaeth sef Tanwen Cray, Jac a Rhys Edwards.

Braf oedd gweld Mari Fflur yn trosglwyddo siec o £5,038 i Dŷ Hafan, ein helusen y llynedd, ar ran Minny Street. Daeth cyfran sylweddol o'r arian er cof am dad-cu Mari Fflur, Rhys Morgan..

www.minnystreet.org @MinnyStreet

SALEM, TREGANNA

Bedydd

Bedyddiwyd Cadi-Jên a Nansi, merched Glenda a David ar 17 Medi. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Priodasau

Pob hapusrwydd i Gwen a Craig McDonald a Dyfrig a Carys Gwent, sydd wedi priodi yn Salem yn ystod y mis diwethaf.

Clwb y Bobl Ifanc

Gwych oedd gweld Salem dan ei sang nos Wener 22 Medi ar gyfer noson cynta'r flwyddyn! Gwych oedd gweld cymaint o oed blwyddyn 7 yn dod am y tro cyntaf a phob oed drwyddi draw hyd at aelodau'r chweched dosbarth. Beth gwell na sglods a phizzas a DVD ar y noson gynta'? Cyfle i drafod gweithgareddau'r flwyddyn a'r penwythnos preswyl ym mis Tachwedd ym Mhontrhydyfen.

Ymdrech anhygoel Gethin

Diolch enfawr i Gethin am ei ymdrech anhygoel wrth gwblhau ei ras dros yr haf - gwych yw gallu dweud iddo lwyddo i godi £2105 tuag at Apêl Corwynt Cariad. Anhygoel!

Clwb Brecwast ac Adran yr Urdd

Cofiwch ddod i'r clwb brecwast eleni os ydych yn rhiant/warcheidwad i blant o dan oed cynradd. Rydym yn cwrdd yn Salem ddwywaith y mis ar foreau Mercher am 9.45 yn Salem. Mae'r adran wedi ailddechrau, gyda sesiwn chwaraeon ar 21 Medi i blant oed cynradd.

Cyngerdd

Cynhelir noson gydag Al Lewis, Morfa a Dylan Davies yn Salem nos Wener 20 Hydref, tuag at apêl Corwynt Cariad Ynysoedd y Pilipinas. Os hoffech docyn cysylltwch ag aled.wynphillips@btinternet.com. Nifer cyfyngedig o docynnau sydd ar gael! £10 yr un, cyntaf i'r felin!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn fawr ag Eleri Cooper a'r teulu oll sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch yn fawr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mari Fflur yn cyflwyno siec i Dŷ Hafan

EGLWYS DEWI SANT

Côr

Mae'r ymarferion wedi ail-ddechrau ers y 5ed o Fedi. Os hoffech ymuno, mae croeso cynnes i aelodau newydd. Cynhelir yr ymarferion bob nos Fawrth am 7 yn Eglwys Dewi Sant.

Datganiad Organ

Cynhaliwyd dau ddatganiad organ yn yr Eglwys yn ystod y mis. James Gough, yn wreiddiol o Gastell Nedd ac yn awr yn dysgu yn Llundain, oedd yr organydd gwadd ar y 15fed a Meirion Wynn Jones o Gaerfyrddin ar yr 22ain. Cafwyd rhaglenni amrywiol a theimladwy gan y ddau ac roedd cynulleidfa dda yn gwrando arnyn nhw.

Coffi a Chlonc

Daeth nifer da o ddysgwyr i gyfarfod cyntaf y tymor a chafwyd sgwrsio bywiog dros baned. Bydd y Coffi a Chlonc nesa ddydd Sadwrn yr 21ain o Hydref o 10.30-12 yn yr eglwys.

Swper Dathlu

Yn dilyn cyflwyniad o siec am £3600 i elusen Marie Curie, sef elw ein Gŵyl Flodau fis Mehefin, aeth tua 30 o'r aelodau mas am bryd o fwyd i ddathlu'r llwyddiant. Cawsom fwyd blasus a noson hwyliog yn ddiweddglo i Ŵyl arbennig.

Pererindod

Bu nifer o'r aelodau ar dridiau o bererindod i ogledd ddwyrain Cymru rhwng y 19eg-21ain i olrhain hanes a chysylltiadau cyfieithwyr y Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Testament Newydd, sef William Salesbury, Richard Davies a Thomas Huet. Gwynn a Mair Matthews fu'n llywio'r bererindod hynod ddiddorol yma a chawson i gyd ein hysbrydoli gan yr hanes a'r trysorau a welsom. Mawr yw ein diolch i Gwynn a Mair am y tair pererindod maen nhw wedi eu harwain. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y Bererindod nesaf ymhen dwy flynedd i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Dydd Sul y 24ain cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Roedd yr eglwys wedi'i haddurno'n fendigedig gan flodau a chynnyrch y tir. Y ficer y Parch Dyfrig Lloyd fu'n pregethu a'i thema amserol oedd Diolch. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd cinio blasus yn y neuadd wedi'i baratoi gan aelodau'r eglwys.

Llongyfarchiadau

Hyfryd oedd clywed y newyddion am enedigaeth mab Catrin a Def Taylor, brawd bach i Beth. Edrychwn ymlaen at gwrdd â Joni Wyn yn fuan.

Dymuniadau da

Cyflwynwyd rhodd fach i Hannah Watkin fydd yn dechrau ar ei chwrs Hanes yng ngholeg Hertford, Rhydychen ddechrau Hydref. Mae Hannah wedi bod yn selog yn cymryd rhan yng ngwasanaethau'r eglwys a dymunwn bob llwyddiant iddi.

BETHEL, RHIWBEINA

Ar ôl seibiant ym mis Awst ail-gychwynnodd ein hoedfaon ar fore Sul Medi'r 3ydd. Aelodau'r capel oedd yn gyfrifol am yr oedfa a chafwyd gwasanaeth bendithiol a diddorol iawn ar y thema 'Goleuni'. Croesawyd ein gweinidog Evan atom ar Fedi'r 10 fed ac eto ar Fedi 24 ar gyfer ein gwasanaeth diolchgarwch. Yn ystod y mis hefyd cawsom gyfle i groesawu Mr Emlyn Davies atom am y tro cyntaf.

Ar fore Mawrth Medi 19 bu cyfle i aelodau a ffrindiau glywed hanes teithiau Julie a Wyn Jones a Shirley Williams – y tri wedi bod i Beriw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod yr Haf bu Carol a Tony Davies yn dathlu eu priodas ruddem. Danfonwn ein dymuniadau gorau atynt.

Cafodd nifer o blant yr Eglwys lwyddiant yn yr arholiadau Safon A . Llongyfarchiadau i Elen, Hannah, Iestyn a Sylvan, a phob dymuniad iddynt wrth gychwyn ar eu cyrsiau prifysgol.

Dymunwn yn dda hefyd i Carwyn Gage sydd newydd symud i Gatraeth i ddechrau gyrfa yn y Fyddin.

Da oedd clywed bod Bob Davies wedi gwella digon i fedru gadael yr ysbyty ar ôl cyfnod o salwch.

Rydym yn danfon ein cofio at aelodau a ffrindiau sy'n methu dod i'r gwasanaethau ar hyn o bryd.

YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Cydymdeimlo

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am Eunice Davies a fu farw ar Awst 16. Symudodd Eunice i Gaerdydd o Rydaman ar ymddeoliad ei gŵr, y diweddar Barch Gareth Davies, er mwyn iddynt fod yn agos at ddwy o'u merched. Ers hynny bu Eunice yn ffyddlon ym mhob oedfa gan roi gwasanaeth parod mewn sawl maes. Roedd ei chyngor bob amser yn ddoeth ac roedd yn ffrind da i bawb. Fe welwn ei heisiau yn fawr a chydymdeimlwn â'r plant Mari, Siriol, John a Catrin, yr wyrion a'r holl deulu yn eu colled.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Dewi Alter ar ennill ei radd gyda dosbarth cyntaf. Bydd Dewi nawr yn parhau i wneud ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd.

Genedigaeth

Llawenhawn gyda Polu a Gwenno ar enedigaeth Sosefo Dafydd, brawd bach i Eseta a ffrind bach newydd i holl blant yr eglwys.

Ymddeoliad

Dymunwn yn dda iawn i'r Athro Christine James wrth iddi ymddeol o brifysgol Abertawe. Fe wyddom na fydd yn segur gan iddi gael ei hethol i olynu Penri Roberts fel Cofiadur newydd yr Orsedd. Christine oedd y ferch gyntaf i fod yn Archdderwydd a hi hefyd yw'r ferch gyntaf i fod yn Gofiadur.

Dyweddïad

Llongyfarchiadau mawr i Aled Lewis a Mari Jenkins ar eu dyweddïad. Dymunwn fendith Duw ar y ddau ohonynt.

Croeso Nôl

Croeso mawr yn ôl i Llion Marc, Rhian a Brychan wrth iddynt ddychwelyd i Gaerdydd o ardal Rhydychen.

Croeso hefyd yn ôl i Hywel Williams ar ôl cyfnod o 8 mlynedd yn gweithio yn Seland Newydd.

Pererinion Eglwys Dewi Sant

EGLWYS EBENESER

Taith i Cambodia

Dechreuodd y Gymdeithas ar y 5ed o Fedi gyda Carys Mair Jones yn siarad am ei thaith i Cambodia fis Awst eleni gydag elusen Cambodian Hope Foundation o dan adain Tearfund. Mae Carys yn un o'n pobol ifanc ac ar hyn o bryd yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor. Pwrpas y daith oedd gweithio am bythefnos gyda thîm oedd yn ymwneud â diogelu plant a phobol rhag cael eu masnachu. Cynhaliwyd prosiectau addysg mewn nifer o bentrefi ar y ffin rhwng Cambodia a Gwlad Tai lle y cyflwynwyd storïau o'r Beibl a gwneud crefftau. Cafwyd cyfle hefyd i fod yn rhan o wasanaeth eglwys ac er eu tlodi roedd eu ffydd yn gryf.

Boreau Sul

Cawsom y fraint o groesawu dau ymwelydd i'n hoedfaon ar fore Sul yn fis Medi. Daeth Susan Williams atom fel mawlweinydd gwadd ar fore Sul yr 17eg. Bendith fawr oedd cael addoli gyda'n gilydd o dan ei harweiniad. Daeth y Parch Hywel Meredydd ar y 24ain i siarad am waith Tearfund a'r modd y mae'r rhoddion yn cael eu gwario ar amrywiol brosiectau. Dim ond 20c o bob punt sy'n mynd at waith codi arian a'r gwaith gweinyddol. Felly mae 80c o bob punt yn mynd at brosiectau ac i ymateb i drychinebau. Diolch iddo am agor ein llygaid i'r gwaith diflino a wneir gan yr elusen.

Trip y Gymdeithas

Ar bnawn Sadwrn, 23ain o Fedi aeth tua 30 ohonom ar daith i weld Eglwys Gadeiriol Aberhonddu a Phantycelyn, cartref y Pêr Ganiedydd. Cawsom beth o'i hanes gan un o'i ddisgynyddion, Cecil Williams, sy'n byw yn y tŷ. Diolch i Alun ein gweinidog am gynnal gwasanaeth byr ddaeth i ben gyda chanu 'Iesu Iesu rwyt ti'n ddigon'. Pwy a ŵyr, efallai mai yn y parlwr ble roedden ni, yr ysgrifennwyd y geiriau gwych gan William Williams. Cafwyd swper cynnar blasus ar y ffordd adre ym Mhontsenni.

BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein cyfarchion cynnes at Tom, un o bileri Bethel ers amser maith, sy mewn cyfnod o salwch. Cofiwn yn dyner hefyd am Hazel, ei wraig, hithau hefyd yn biler, sy'n fawr ei gofal drosto.

Ar Fedi'r 3ydd buom yn myfyrio ynghylch rhai dyfyniadau gan bobl wrth wynebu her ein ffydd. Daliwyd ein sylw gan ddau: rwy'n Gristion o argyhoeddiad ond nid o ymrwymiad; rwy'n Gristion gweithredol ond ddim yn grediniol.

Medi'r 17eg oedd dyddiad ein sesiwn newydd o'r Ysgol Sul i Bawb. Y mater dan sylw oedd ein hymateb i'r nifer helaeth o gyfeiriadau at 'angel' yn y Beibl. Beth yw natur ein crediniaeth neu anghrediniaeth? At ei gilydd roedd aelodau yn dehongli 'angel' heddiw yn arwydd o berson da nad yw'n tynnu sylw at ei hun.

Yn oedfa'r hwyr (Medi 17eg), buom gyda'n gweinidog yn cyffwrdd â hanes Noa, yn rhannol oherwydd y llifogydd difrifol mewn sawl gwlad. Rhoddwyd sylw i'r adnod, 'A dyma Noa yn gwneud yn union fel roedd Duw wedi dweud wrtho' Genesis 6,22.

Llawenydd i bawb oedd bod yn Oedfa Fedydd Anna Lotti Wyn Phillips ar Fedi 24ain. Gweinyddwyd gan ein gweinidog, Y Parchedig Kevin Davies. Dilynodd ei arfer o gario'r babi o gwmpas y gynulleidfa gan roi cyfle i aelodau arwyddo'u hymrwymiad i'r fechan. Bu Lotti yn hynod o ddedwydd trwy'r cyfan. Merch ydyw i Bethan a Darran ac yn wyres i Gwyn. Nia a Martyn oedd y rhieni bedydd. Yna, bu Kevin yn difyrru plant eraill y gynulleidfa ac yn herio'r rhai hŷn gyda myfyrdod ar Bennill 3 o Emyn 858, yng nghyd-destun Sul Heddwch.

Nos Lun Medi 25ain cafodd rhai ohonom gyfle difyr mewn grwpiau canu i gefnogi Sian Meinir wrth iddi recordio oedfa i'w darlledu gan y BBC fore Sul Hydref 1af.

EGLWYS Y CRWYS

Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Mrs Myfanwy Jarman ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Mae Myfanwy o hyd yn edrych yn hyfryd ac wedi ymgartrefu yn Cartref, Llanisien. Dymunwn yn dda iddi.

Bedydd

Mewn gwasanaeth hyfryd o dan arweiniad y Parch Aled Huw Thomas, bedyddiwyd Cara Meriel, merch Stuart a Carys White ac wyres Gareth a Gwen Edwards. Dymunwn yn dda i'r teulu bach sydd wedi ymgartrefu ger Stratford.

Priodas

Cynhaliwyd gwasanaeth priodas ein Gweinidog, y Parch Aled Huw Thomas a Delyth Owen o dan arweiniad y Parch Glyn Tudwal Jones. Braf oedd gweld cynifer o aelodau'r Eglwys wedi ymgynnull i ddymuno'n dda iddynt. Llongyfarchiadau a phob bendith iddynt i'r dyfodol.

Cylch Cymorth

Cynhaliwyd Ffair Fedi lwyddiannus o dan nawdd y Cylch Cinio. Bu'r arian yn mynd tuag at achosion lleol. Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r trefniadau.

Y Cymdeithasau

Mae rhaglenni'r holl Gymdeithasau am y tymor newydd wedi ymddangos ac edrychir ymlaen at wledd o amrywiol weithgareddau yn ystod misoedd nesaf.

Croeso

Bydd croeso mawr i unrhyw un i ymuno â ni yn ein haddoliad yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd. Fe'n gwasanaethir ar Hydref 22ain gan y Parch Gethin Rhys ac ar y 29ain gan y Parch Lona Roberts. Ein Gweinidog fydd yn gwasanaethu ar Dachwedd y 5ed a'r 19eg a chawn y pleser o groesawu'r Dr. Eryl Wyn Davies, Llanfairpwll ar y 12fed ag un o'n haelodau, Mr. Peredur Owen Griffiths ar y 26ain.

NABOD EIN POBOL

Falmai Griffiths yn holi Steffan Evans



Bachgen o Gaerdydd 'dych chi?

Nage, dw i'n dod o Eglwyswrw yn Sir Benfro ac es i i Ysgol Gynradd y pentre' ac yna i Ysgol Uwchradd Y Preseli. 'Do'n i ddim yn cymryd llawer o ddiddordeb yn fy ngwaith ac ar ôl fy arholiadau T.G.A.U. gadewais yr ysgol. A dweud y gwir, dyna'r peth gore ddigwyddodd i fi achos 'ro'n i'n dipyn o glown y dosbarth ac yn methu cymryd dim o ddifrif. Es i i Goleg Sir Benfro yn Hwlffordd wedyn ac astudio Gwasanaethau Cyhoeddus achos erbyn nawr 'ro'n i eisiau bod yn blismon, credwch fi neu beidio! Sefais arholiadau a llwyddo a chael lle ym Mhrifysgol Morgannwg yn astudio Criminoleg o bopeth ond eto ni orffennais y cwrs ac yna penderfynais adael a chwilio am waith yng Nghaerdydd.

Fuoch chi'n lwcus i ffeindio gwaith bryd hynny?

Do**,** ces waith yn nhafarn O'Neill's yn y dref. Dechreuais yn gweithio'n rhan amser ac yna ces waith amser llawn gyda'r cwmni. 'Ro'n i'n gweithio'n galed iawn ac yn mwynhau cael siarad gyda phobol amrywiol iawn. Gan fy mod yn gweithio'n galed ces ddyrchafiad i fod yn arolygwr cynorthwyol ac yna yn rheolwr cynorthwyol. Gweithiais mewn tafarndai am ryw bymtheg mlynedd yn y ddinas, ac fel 'ro'n i'n dweud yn mwynhau er bod y gwaith yn gallu bod yn galed a'r oriau'n hir. Bum yn rheolwr bwyty'r Mochyn Du ac yn mwynhau cael cwrdd â llawer o Gymry Cymraeg yno.

Beth wnaethoch chi wedyn?

Wel! dechreuais feddwl am fod yn gomedïwr achos roedd yn rywbeth wedd yn dod yn hawdd i mi ar ôl cwrdd â'r holl bobol yn y tafarndai dros y blynyddoedd ac hefyd wrth gofio am y cymeriadau oedd yn byw yn Sir Benfro. Penderfynais 'sgrifennu sgriptiau comedïau sefyllfaoedd. Gorffennais weithio yn Y Mochyn Du a chefais swydd yng nghaffi Ffandangos yma yn Llandaf er mwyn canolbwyntio ar fod yn gomedïwr "stand up". Dw i wrth fy modd yma ac yn cael sgwrsio'n Gymraeg bob dydd. Hefyd 'dw i'n trefnu nosweithiau comedi yma unwaith y mis.

Ym mha iaith mae'r nosweithiau hyn?

Dechreuon ni gyda nosweithiau uniaith Saesneg ond erbyn hyn 'dyn ni'n cael noson Gymraeg bob tri mis ac er syndod i mi maent yn nosweithiau poblogaidd iawn.

Ydych chi'n perfformio yn y ddwy iaith?

Ydw, ond 'dwi'n teimlo'n fwy cyffyrddus yn perfformio yn Gymraeg.

Ble 'dych chi wedi perfformio hyd yn hyn?

Dw i wedi bod yn Ysgol Gartholwg, Y Ffwrnais yn Llanelli, Theatr Felin Fach ac yn Llundain yng nghlwb Cymry Llundain, gydag Ellis James. Wythnos yn ôl fe fuon ni yn Aberystwyth, Pwllheli a Bangor a chael nosweithiau bendigedig.

Ydych chi'n hoff o deithio?

Ydw, yn fawr iawn. Dw i wedi teithio i Seland Newydd, Awstralia, Yr Unol Daleithiau, De Affrig, Gwlad Thai, Ffrainc, Sbaen, Portiwgal a'r Almaen. Hoffwn fynd yn ôl i Seland Newydd achos roedd y wlad yn debyg i Gymru ac roedd y bobol yn gyfeillgar iawn.

Ble mae eich lle delfrydol ?

I mi, Efrog Newydd achos maen ddinas sy' byth yn cysgu!!

Oes rhywun yn y byd comedi wedi eich ysbrydoli?

Wes, Ifan Griffith ac Owen Money. 'Ro'n i'n dwli gwylio "Ma' Ifan 'ma."

Pwy yw eich arwr neu arwres?

Pan wen i'n blentyn Ian Rush wedd e ond erbyn hyn fy mam a'm tad ydyn nhw gan fy mod i'n ddigon hen erbyn hyn i werthfawrogi popeth wnaethon nhw drosof a gweld nag 'o'n i'n mynd heb ddim ac yn fy nghefnogi ym mhob peth.

Helo

Aled Hughes ydw i, 'dwi'n cyflwyno rhaglen ar BBC Radio Cymru am 08:30 bob bore.

'Dwi wrth fy modd yn beicio yn y glaw, yn oer o fy nghorryn at fy sawdl am oriau pob dydd yn ystod mis Tachwedd.

Dyma'r celwydd mwyaf welwch chi yn y llythyr yma. Dydw i ddim yn feiciwr profiadol a dydw i ddim yn hoff iawn o dywydd gwlyb ac oer!

Ond y llynedd, mi wnes i gwblhau taith feics o Abertawe i Fangor a chasglu dros £20,000 i elusen Plant Mewn Angen. Er bod gwneud yr holl beth eto yn mynd i fod yn her ac yn anodd ac yn rhywbeth nad ydi fy mhen ôl yn edrych ymlaen ato - dwi'n lwcus iawn i fod mewn sefyllfa i allu tynnu sylw a chasglu arian i elusen sydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau plant yma yng Nghymru.

Ar ddydd Llun, Tachwedd 13eg mi fydda i'n darlledu o ffreutur y BBC yn Llandaf – cyn beicio i Bontypridd, trwy Abercynon i gyrraedd Merthyr. Mae'r ffordd fyny i Nantgarw eisoes yn golygu bod fy nghoesau yn crynu, yn meddwl am y peth yn unig.

Unwaith eto – y nod yn syml iawn ydi casglu cymaint o arian ac y galla i i Blant Mewn Angen, i helpu rheini sydd wir angen cymorth.

Petae chi'n fodlon cefnogi mi fyddwn yn ddiolchgar iawn. Cysylltwch â mi ar Aled@bbc.co.uk neu drwy ffonio 01248 374979

Diolch o galon am bob cefnogaeth,

Aled

BBC Radio Cymru, Bryn Meirion, Bangor, LL57 2BY

CERDYN POST O BERKELEY

Lowri Haf Cooke yn holi Siobhan Eleri McGurk

Mae Siobhan Eleri McGurk, sy'n 30 oed, yn sgwennu cynnwys ar gyfer gwefannau, ac yn byw yn Berkeley, Gogledd California, gyda'i gwraig Johanna.

Un o ble ydych chi'n wreiddiol yng Nghaerdydd?

Cefais fy ngeni yn y Sblot, cyn symud i'r Eglwys Newydd yn ddyflwydd oed. Er nad yw Mam a Dad yn siarad Cymraeg, fe es i Ysgol Melin Gruffydd ac wedyn i Glantaf. O'n i'n caru Melin Gruffydd, ac o'n i'n ddigon lwcus i gael athrawon arbennig fel Mrs Mair Robbins, Mrs Rhun Jones a Mrs Rhiannon Lloyd. Pan o'dd hi'n braf yn y gwanwyn a'r haf, o'dd pawb yn chwarae ar y cae mawr tu ôl i'r ysgol, a mis Rhagfyr oedd cyfnod y sioe Nadolig fawreddog yn theatr y Reardon Smith!

Pryd a sut lanioch chi yn Berkeley a beth ydych chi'n ei wneud yno?

Astudiais i Hanes ym Mhrifysgol Caerdydd, ac ar ôl i mi ennill M.A. penderfynais symud i'r U.D.A. er mwyn ceisio am PhD ym Mhrifysgol Wisconsin-Madison. Ar ôl sawl blwyddyn yn ninas Madison ac wedyn Philadelphia, symudais i Berkeley, gan taw dyma yw ardal magwraeth fy ngwraig. Mae hithau'n dysgu Hanes mewn ysgol uwchradd breifat yn ninas gyfagos Oakland, a da ni'n treulio ein hamser rhydd yn Berkeley a San Francisco.

Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Berkeley...

Codi, paned o goffi (o gaffi Artis ar Fourth Street, yn ddelfrydol), ymarfer corff - naill ai yn y gampfa neu'n beicio ym mryniau Berkeley. 'Brunch' yn yr ardd - fel arfer rhywbeth fel tost gydag wyau, avocado, tomatos, a salami. Da ni fel arfer yn prynu ffrwythau a llysiau oddi wrth siop leol o'r enw Monterey Market. Wedyn, naill ai gadael y tŷ i ddarganfod ardaloedd newydd fel Monterey, Marin a Napa, neu gwrdd â ffrindiau yn San Francisco. Yn y nos, cocktails a bwyd nô yn Oakland, neu Berkeley. Mae 'na fwyty gweddol newydd o'r enw Café Eugene ar Solano Avenue. Dwi'n hoff o goctel o'r enw 'Rusty Roof', sef Scotch, amaro, brandi ceirios a *bitters* oren!

Pa dri lle yn Berkeley y bydde chi'n annog i rywun o Gaerdydd eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas a'i chyffiniau?

Rhaid ymweld ag ardal y *'Gourmet Ghetto'* yn Berkeley, yn enwedig bwyty chwedlonol Chez Panisse a siop caws y Cheese Board Collective. Dyma le ddechreuodd y mudiad *'California Cuisine'* yn y 1970au, a roddodd bwyslais ar fwyta'n lleol, tymhorol ac organig. Rhaid hefyd ymweld â Phrifysgol fyd-enwog Berkeley, cartref y 'Free Speech Movement'. Yn ola' Berkeley Marina, i weld y cychod, adar, y bae godidog a golygfeydd o San Ffrancisco dros y dŵr.

Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yn Berkeley?

Anodd dewis! Chez Panisse yn bendant - mae'r fwydlen yn newid pob wythnos. Tro diwethaf fy hoff saig o'dd y penfras gydag ysgewyll *(sprouts)* bychain. Mae 'na hefyd fwyty Mecsicanaidd ardderchog gerllaw o'r enw Picante. Dwi'n dewis y Burrito cyw iâr pob tro!

Ble mae'r olygfa orau yn Berkeley?

Mae 'na gymaint o olygfeydd ffantastig yn ardal ehangach y 'San Francisco Bay Area'! Dwi am ddewis dau. Mae 'na heol o'r enw Grizzly Peak sy'n dilyn copaon bryniau Berkeley ac Oakland. Os nad oes niwl (!) mae'n bosib gweld y bae cyflawn: San Francisco, y Golden Gate Bridge, Berkeley, Oakland ac Ynys Alcatraz. Yn ail, mae gwesty o'r enw Highlands Inn y tu allan i Monterey. Mae bar a bwyty bach yn y gwesty sydd â golygfa syfrdanol o'r môr.

Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?

Ar wahân i golli teulu, dwi'n colli siarad Cymraeg. Dwi hefyd yn colli cyd-ddathlu pan mae timoedd pêl-droed neu rygbi Cymru yn ennill! Dwi'n colli siopa yn Waitrose!

ANTHOLEG NEWYDD O FARDDONIAETH

Llongyfarchiadau i'r Athro Meic Stephens a Gwyn Griffiths ar eu hantholeg swmpus *The Old Red Tongue*. Dyma'r casgliad mwyaf erioed o farddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg o'r chweched ganrif hyd heddiw. Mae hi'n gyfrol unigryw oherwydd yn syth ar ôl pob cerdd neu ddarn o ryddiaith y ceir cyfieithiad i'r Saesneg. Ymhlith y cewri y mae Dafydd ap Gwilym, Williams Pantycelyn, Daniel Owen, Kate Roberts, Saunders Lewis, Williams Parry, Waldo Williams, T.H.Parry-Williams ac yn y blaen, yn ogystal â nifer o lenorion llai adnabyddus. Mae'r llyfr yn cynnwys gwaith dros ddau gant o awduron, cant ohonynt o'r ugeinfed ganrif. Ymhlith y llu o lenorion Caerdydd y ceir Christine James, Grahame Davies, Manon Rhys, Geraint Jarman, Gwyneth Lewis, Harri Pritchard Jones, Gwenlyn Parry, Alun Llywelyn-Williams, William Owen Roberts, Aled Islwyn, Tony Bianchi, Jon Gower a T. Arfon Williams. Dyma gyfrol sy'n addas i'r darllenydd cyffredinol, y disgybl chweched dosbarth a'r myfyriwr prifysgol, a charreg filltir mewn ysgolheictod Cymraeg, Mae'n cynnwys 999 o dudalennau ac mae'n costio £30.

Y DIGWYDDIADUR

Hydref

Iau, 12 Hydref
Sioe Ffasiynau yng Nghlwb Golff Radur am 7.30pm, er budd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Tocynnau £15; ar gael gan aelodau Merched y Wawr, Bro Radur ac yn Siop y Felin a Caban. Manylion pellach: jeansalisbury@hotmail.com.

Gwener, 13 Hydref
Pwyllgor Apêl Rhiwbina a Llanisien, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Dewch i ymuno â ni am bryd nos tri chwrs yng Nghaffe Fach, Heol Llanisien Fach, Rhiwbina. Rhagor o wybodaeth ar gael drwy ebostio apel_rhall@outlook.com.

Sadwrn, 14 Hydref
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan Lois Dafydd am chwilio am aur yn America. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays CF24 4DX. Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn 14 Hydref
Cymdeithas y Beibl. Bore coffi yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, rhwng 10.30 a 12.00. Bydd amrywiol stondinau. Mynediad am ddim.

Sadwrn, 14 Hydref
Gêm rygbi Adran 2: CWINS CAERDYDD v. Y Barri. C.G. 2.30pm, Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb.

Sadwrn, 14 Hydref
Ffrindiau'r Stafell Fyw, Caerdydd. Cynhelir cyngerdd yng nghwmni Côr Meibion Dinbych a'u gwestai arbennig, Caryl Parry Jones, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 7.30pm. Tocynnau: £10. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Stafell Fyw ar 029-2049-3895 neu carol.hardy@cais.org.uk.

Llun, 16 Hydref
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Te prynhawn ag adloniant i ddathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn 25 oed, yn 'New House', Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), am 2.00pm.

Llun, 16 Hydref
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Ben Screen (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) ar y testun, 'Cyfieithu Awtomatig a Chyfieithu Proffesiynol: Gelynion ynteu Cyfeillion?', yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mawrth, 17 Hydref
Cymrodorion y Barri. Noson y Dysgwyr. Cyflwyniad gan Margaret ac Ifan Roberts; gweithgareddau gan Carol Grant. Yn festri'r Tabernacl, Sgwâr y Brenin, Y Barri, am 7.15pm. Croeso cynnes i bawb.

Mercher, 18 Hydref
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Hydref. Cinio a phrynhawn yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan ar ei newydd wedd gyda Bethan Lewis.

Gwener, 20 Hydref
Al Lewis, Morfa a Dylan Davies yn perfformio yn Salem, Treganna, am 7.30pm. Yr elw er budd Apêl 2017 Eglwys Bresbyteraidd Cymru Ynysoedd y Pilipinas.Tocynnau: £10 -07974-747881 neu ebostiwch aled.wynphillips@btinternet.com

Gwener, 20 Hydref
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Jon Gower ar y testun, **'**O Colombia i'r New Conway: Dilyn Trywydd Tony Bianchi**'**, yn Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn, 21 Hydref
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.

Mawrth–Mercher, 24–25 Hydref
P.A.R.A.D.E. Cyflwyniad gan Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Marc Rees mewn cydweithrediad â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Rubicon Dance a Dawns i Bawb, i gofio canmlwyddiant y chwyldro yn Rwsia. Nos Fawrth am 7.00pm a dydd Mercher am 1.00pm a 7.00pm, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach www.wmc.org.uk; 029-2063-6464.

Iau, 26 Hydref
Mae Amgueddfa Stori Caerdydd yn cynnig taith drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 6.00pm ac 8.00pm drwy'r Hen Lyfrgell ar yr Ais, i fyny i do'r adeilad er mwyn profi'r olygfa anhygoel dros y ddinas, gan orffen gyda choctel yng Nghaffi Llaeth a Siwgr. I archebu lle, ffoniwch 029-2034-6214 neu ebostiwch cardiffstory@cardiff.gov.uk.

Gwener, 27 Hydref
Gigs Bach y Fro. Noson o gerddoriaeth yng nghwmni Steve Eaves a Rhai Pobl yn y **'**Cogan Coronation Club', Penarth. Drysau'n agor am 8.00pm. Tocynnau: £10. Archebwch eich tocynnau ar-lein: http://bit.ly/Gig-Steve-Eaves neu drwy gysylltu â 029-2068-9888 / ffion@menterbromorgannwg.cymru.

Sadwrn, 28 Hydref
Y Tabernacl, Yr Ais. Datganiad organ gan Elin Rees am 12.30pm. Mynediad am ddim. Casgliad tawel.

Tachwedd

Mercher, 1 Tachwedd
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Marian Evans ar y testun, 'Bysedd Chwim', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Gwener, 3 Tachwedd
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Gareth Ffowc Roberts ar y testun, 'Cawr Ymhlith Corachod', yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4DX, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: 029-2056-2880.

Sadwrn, 4 Tachwedd
Rhagolwg: 'Hud y Crochan Uwd' (Y Brodyr Grimm), i blant 3-6 oed, yn Theatr Sherman am 1.30pm. http://www.shermantheatre.co.uk/performance/plant/hud-y-crochan-uwd-cy/

Llun, 6 Tachwedd
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd a Chymdeithas Carnhuanawc yn Jolyons, 10 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Parch. Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn. Am fanylion pellach, ebostiwch cylch.cinio@gmail.com neu ffoniwch 07859-007406. Enwau i Glyn Hughes (glyn@clwb.net).

Mercher, 8 Tachwedd
Merched y Wawr, Bro Radur. Coginio danteithion sawrus a melys ar gyfer y Nadolig gydag Elizabeth West. Cynhelir y cyfarfod yn neuadd Capel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Iau, 9 Tachwedd
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Gethin Rhys am grefydd a gwleidyddiaeth, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 7.30pm.

I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 3

Ffônlyfr Menter Caerdydd

Rydym yn dal i gasglu enwau ar gyfer ein Ffônlyfr newydd - ydych chi'n cynnig neu'n nabod rhywun sy'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd? O waith yn y cartref neu wasanaethau proffesiynol, ac o gwmnïoedd mawr i unigolion, bwriad y Ffônlyfr yw cynnig casgliad cynhwysfawr o wasanaethau Cymraeg y ddinas. Bydd y cyfeirlyfr newydd yn rhan o wefan newydd Menter Caerdydd sy'n cael ei ddylunio ar hyn o bryd, ac felly mae dal CYNNIG ARBENNIG i gofrestru am ddim - e-bostiwch Leanne yn y swyddfa i gofrestru. leanne@mentercaerdydd.cymru 029 2068 9888.

Amser Stori

Croeso i Gwennan Ruddock Young sy'n ymuno gyda thîm o staff achlysurol y Fenter i arwain ein sesiynau Amser Stori. Mae 6 sesiwn Amser Stori wythnosol erbyn hyn yn Grangetown, yr Eglwys Newydd, Treganna, Radur, Pen-y-lan a Chaerdydd Canolog. Ewch i'r wefan am fanylion llawn am amseroedd a dyddiau'r Amseroedd Stori.

"Tyfais i fyny ym Mhen-y-lan yng Nghaerdydd, merch i Rhian a Gilbert Ruddock. Ar ôl astudio Celfyddydau Gweledol, es i weithio i Gyngor Celfyddydau Cymru (gyda'r awdur hynod Tony Bianchi) ac yna Celfyddydau Anabledd Cymru. Ar ôl cael dau o blant (Catrin sy'n 10 a Bethan sy'n 6), sylweddolais ei bod yn amser i newid cyfeiriad. Rydw i yn caru gweithio gyda phlant, ac wedi cael profiadau hyfryd dros y blynyddoedd diwethaf o weithio mewn Cylchoedd Meithrin a gweld plant yn tyfu a datblygu hyder. Mae'r sesiynau Amser Stori yn llyfrgelloedd Caerdydd yn gyfle ardderchog i blant a'u rhieni neu warchodwyr i gymdeithasu, datblygu hyder, a chael hwyl!"

Dosbarthiadau Cynganeddu

Bydd 2 ddosbarth newydd i gynganeddwyr brwd yn dechrau yn ystod mis Hydref - ydych chi'n gweld eich hun fel tipyn o gynganeddwr ac ag uchelgais i ennill cadair Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd haf nesaf? Bydd dosbarth newydd i ddechreuwyr yn cael ei gynnal ar Nos Fawrth yng Nghwrt Insole dan ofal Emyr Davies, tra bydd ail ddosbarth i ymarfer a meistroli'r grefft dan arweiniad Llŷr Gwyn Lewis yn Chapter, hefyd ar Nos Fawrth. I gofrestru, neu am fwy o wybodaeth ewch dudalen Oedolion ar wefan y Fenter neu e-bostiwch angharad@mentercaerdydd.cymru



Gigs Bach y Fro

yn cyflwyno...

STEVE EAVES a rhai pobl

Nos Wener, Hydref 27

Clwb Coronation Cogan, Penarth

8pm

Tocynnau, £10, ar gael drwy ebostio ffion@menterbromorgannwg.cymru

LLYFR NEWYDD YN DATGELU RHAGOR O HANES CYMDEITHASOL SIR GÂR

'Efe oedd cannwyll yn llosgi ac yn goleuo' - disgrifiad o Griffith Havard ar ei garreg fedd ym mynwent Bwlchgwyn ger Hen-Dy-Gwyn-ar-Daf. Ond pwy oedd Griffith Havard? Beth a wnaeth i haeddu'r fath glod? Mae'r atebion yn llyfr newydd Denley Owen - *'Ar droed yn Nyfed'*. Am dros chwarter canrif hyd 1876 gweinidog gyda'r Bedyddwyr oedd Griffith. Bu mewn nifer o eglwysi yn cynnwys Ramoth, Cwmfelin Mynach; Hebron, Saundersfoot; Soar, Llanteg; Smyrna, Casmael a Beulah, Casnewydd Bach. O 1876 hyd ei farw ym 1894 bu'n cadw siop Fferyllydd yn Hen-Dy-Gwyn-ar-Daf ond yn fwy diddorol dyma'r cyfnod y daeth ei ddaliadau radicalaidd i'r amlwg. Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd cynnwrf gwleidyddol o blaid gwella amodau byw'r werin yn ysgubo drwy'r wlad ac yn Sir Gâr chwaraeodd Griffith Havard ran gyhoeddus allweddol yn llwyddiant y Radicaliaid Powell, Maesgwyn a'i olynydd J Lloyd Morgan, Caerfyrddin yn trechu'r Torïaid yn etholiadau seneddol y cyfnod. Pan wrthryfelodd ffermwyr Cymru yn erbyn treth annheg y Degwm, Griffith Havard oedd yr huotlaf a'r dewraf o'u cefnogwyr yng ngorllewin Sir Gâr.

Cyndyn iawn ydym ni'r Cymry i ddangos ein bod yn gwerthfawrogi ac am gofio'r arweinwyr hynny wnaeth sefyll dros iawnderau ein cyndeidiau a'n cyn-neiniau - 'd oes dim obelisg uchel i gofio Griffith Havard, dim ond carreg a godwyd ar ei fedd bron ugain mlynedd ar ôl ei gladdu ac sydd erbyn hyn wedi ei malurio gan y tywydd. Ond o leiaf mae ei hanes ef a'r cyfnod cyffrous y gwnaeth ei gyfraniad sylweddol ynddo ar glawr a chadw . Mae'r llyfr ar werth am £5.

STORI "MWGSI" WEDI EI ADDASU I'R LLWYFAN

Yn ôl ym Mehefin 2015 roedd Megan Davies yn ferch 18 oed cyffredin o Bwllheli, Pen Llŷn.

Roedd hi newydd orffen ei Lefel A ac roedd hi'n paratoi am haf o gymdeithasu a gwyliau tramor gyda'r genod cyn cychwyn gradd nyrsio yng Nghaerdydd.Ond ar ddydd Llun 29 Mehefin, fe newidiodd bywyd Megan am byth. Ar y diwrnod hwnnw, cafodd wybod ei bod yn dioddef o Hodgkin Lymphoma, math o gancr.

Dwy flynedd yn ddiweddarach, gyda Megan bellach wedi goroesi'r driniaeth ac yn rhydd o gancr, mae ei stori wedi ei addasu i'r theatr gan Frân Wen ac mae hi yn dod i Chapter Gaerdydd ar y 3ydd a 4ydd o Dachwedd.

Mae'r arbenigwyr theatr i gynulleidfaoedd ifanc o Ynys Môn yn teithio Mwgsi, sydd wedi ei sgwennu gan yr awdur a'r dramodydd Manon Steffan Ros.

Yr actorion Mirain Fflur - sy'n chwarae rhan Mwgsi - Catrin Mara a Ceri Elen fydd yn perfformio'r ddrama, gyda'r cyfarwyddwr Iola Ynyr o Frân Wen yn clymu'r sioe at ei gilydd. Mae hi'n addo "drama creulon o onest ond llawn hiwmor tywyll."

"Yr hyn 'nath y nharo i yn syth am blog Mwgsi oedd ei gonestrwydd dewr hi. Doedd yna ddim math o hunan -dosturi dim ond wynebu'r salwch a hynny hefo digon o hiwmor. Mi oedd 'na rannau anghyfforddus iawn ond y teimlad o gariad a chyfeillgarwch sy'n trechu trwy'r cyfan," meddai Iola, Cyfarwyddwr Artistig Frân Wen.

Roedd Megan a'i ffrind Gwenllian - sydd hefyd yn cyfrannu i'r blog - yn rhan o'r broses greadigol ers y cychwyn.

"Mae wedi bod yn lot o hwyl bod yn rhan o ddod a bob dim at ei gilydd," meddai Megan, sydd ar hyn o bryd yn astudio Nyrsio ym Mhrifysgol Caerdydd.

"Mae Manon wedi defnyddio fy stori i fel ysbrydoliaeth, a da' ni wedi ceisio gwneud y ddrama mor abstract â phosib, gan ddefnyddio fy mlog fel sylfaen.

"Dwi'n gobeithio gwneith y ddrama ysbrydoli pobl eraill i siarad - siarad am gancr, salwch ac iechyd meddwl. Dyda' ni ddim yn siarad digon."

YR HEN LYFRGELL

Yr Hen Lyfrgell

Dyma'r newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau cyffrous sydd ar y gweill yn yr wythnosau nesaf yn Yr Hen Lyfrgell. Gobeithio eich gweld chi'n fuan!

Clonc!

Mae clonc yn ôl! Os ydych chi'n chwilio am gyfle i ymarfer eich Cymraeg, eisiau sgwrsio'n naturiol, neu am ddod i gymdeithasu, gwrando a chael paned – mae cyfle bob dydd Llun a dydd Gwener rhwng 1 a 2 y prynhawn.

Shwmae Sheree?



Yr wythnos hon rydym ni'n siarad gyda Sheree, gweinyddes a chyd-reolwraig yn Llaeth a Siwgr, Yr Hen Lyfrgell. Dyma hi'n ateb ambell i gwestiwn pwysig iawn i ni…

Yn gynta', llaeth neu lefrith? Llaeth!

O ble wyt ti'n dod yn wreiddiol? Aberteifi

Pam nes di symud i Gaerdydd? Mae'n ddinas fach ond mae popeth sydd angen arna'i yma. Mae llawer yn digwydd yng Nghaerdydd.

Hoff le yng Nghaerdydd? Chapter, mae awyrgylch grêt yno.

Gwenno neu Yws Gwynedd? Gwenno, dwi'n hoffi music hi, mae'n wahanol iawn.

Be sy'n neud llaeth a siwgr Yr Hen Lyfrgell yn arbennig? Fi'n hoffi bod pawb yn dod o lefydd gwahanol yng Nghymru, ac yn caru Caerdydd. Mae'n grêt bod yna le gwahanol, croesawgar a Chymreig ei naws reit yng nghanol y ddinas.

Hoff fwyd oddi ar y fwydlen? Ŵy wedi sgramblo gyda hadau!

Rygbi rygbi rygbi.

Mae'r gemau rhyngwladol ar fin cychwyn ac fe fydd Llaeth a Siwgr yn agor ei drysau unwaith eto i chi fwynhau awyrgylch gemau'r Hydref yng nghanol y ddinas. Bydd pob gêm yn cael eu dangos ar y sgrin fawr felly dewch draw i wylio Cymru yn herio Awstralia, Georgia, Seland Newydd a De'r Affrig. Os hoffech chi archebu bwrdd yna e-bostiwch contact@milkandsugarplease.com

Cerdyn ffrind

Mae Caffi Llaeth a Siwgr hefyd yn parhau i gynnig gostyngiad o 10% i bob un o Ffrindiau Yr Hen Lyfrgell – felly cofiwch gyflwyno'ch carden wrth dalu!

Rhif: 176

	A			
D	I	N	E	S
	R			



Ar Draws

7. Beth sydd ym mharsel Enid eleni? (5)
8. I'm drygu yn hurt a'm diystyru (7)
9. Doethor y datganiad sy'n enllib (7)
10. Gwas sy'n ymladd crwtyn ar yn ail (5)
12. Wedi dwyn ci fe af a'r garlam i'r lle busnes (10)
15. 'Paham, fy enaid, y'th ddarostyngir, ac yr -----
    ynof? (Salmau)(10)
18. Merch ddiffuant (5)
19. '----- ----- ----- yw cwmni'r brodyr
    Sydd â'u hwyneb tua'r wlad,' (WA) (1,3,3)
21. Moi a Mog yn uno wedi dechrau'r ysgol i sgwrsio
    (7)
22. Cynhyrchu fel 4 (5)

I Lawr

1. 'Heb ddim i'w ddifyrru yn awr wrth noswylio
   Ond y teid yn dod miwn, a'r ----- ----- -----
   mas' (WNW) (4,2,4)
2. Lliw i ddechrau mireinio ein lolfa yn naturiol (5)
3. Cywasgu dihangfa a'i difrodi (4)
4. 'Pan fo tôn pêr -----,
   Hyd y dail, yn hudo dyn(LM) (6)
5. Hun y gordew (8)
6. Plygu lawr i siglo y crud cu (7)
11. 'Pentwr arall; ----- -----
    Ennyd ar yn ail' (WCW) (3,7)
13. Cymraes a diffyg calsiwm yn symud yn
    ddibendraw i gael trafod (8)
14. Bwrw golwg dros y golud a ddosbarthwyd (7)
16. Dos i fyny wedi canol y tymor i daro (6)
17. Symuda fel 4 (5)
20. 'Fel nos rhwng coed yn ----- y saif hon,
    A'r dwysaf faes dani;' (DEJ) (4)

Enillydd Croesair Rhif 174
Eira M. Jones, Y Mynydd Bychan

Atebion Croesair Rhif 174

Ar Draws 2. Bys 5. Barcer 7. Emynau 9. Bu dy gychod a'th 10. Grymus 11. Soseri 13. Er dued 16. Afradu 18. Caf ddyrchafu'r 19. Archolli 20 Blodau 21. Neu

I Lawr 1. Barbwr 2. Bregus 3. Serchus 4. Saethwr 6. Cydymffurfio 8. Yn disgrifio 10. Gwe 12. Iau 14. Record 15. Drycin 16. Archebu 17. Dirnad

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Tachweddd 2017.
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

Pobol y Rhigwm

Fe gofiwch mai'r testun a osodwyd i'r rhigymwyr yn rhifyn Gorffennaf/Awst oedd brysneges ar y llythyren B. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond oherwydd prinder gofod, dim ond y goreuon a gyhoeddir yma.

Blydi Boris barodd Brexit! Byddwch barod... bydd bedlam. *(Arhoswr)*
Does dim amheuaeth am neges yr Arhoswr, nac at ba Boris y cyfeirir. Amserol iawn.

Berwa'r bresych, binia'r bisgedi! Bwytwyr barus biau'r boliau brasaf. *(Slimfast)*
Dyma arwyddair i bawb sy'n meddwl mynd ar ddeiet. Mae'n gwneud rhyw fath o synnwyr, ac mae hynny'n helpu bob tro.

Bobl beniog brynant bapur bro. (*Adran Farchnata)*
Dyma wireb yn crynhoi neges addas iawn. Dyw hi ddim yn *frys*neges, ond ni waeth am hynny.

Gwobrwyer Adran Farchnata.
Daeth i sylw'r pwyllgor fod Adran Farchnata wedi torri un o reolau'r gystadleuaeth, felly ni fydd yn derbyn y wobr hael a gynigiwyd!

Y dasg nesaf fydd llunio pennill telyn yn cyfeirio at unrhyw ddinas.
Gall fod yn ddoniol neu'n ddwys.

Anfonwch eich cynigion at db.james@ntlworld.com erbyn 10 Tachwedd.
Pob hwyl â'r rhigymu! Emyr Davies

Dyma enghraifft o bennill telyn gan Euros Jones (Crwydriaid Morgannwg) ar Talwrn y Beirdd dro'n ôl.

Mae tri pheth yn annwyl i mi:
Hwfro'r tŷ a golchi llestri.
Ac mae gennyf dri o feiau:
Methu cyfri a dweud celwyddau.

Bwytai Merch y Ddinas

"wedi mhrofiad cyntaf i yno, fe wyddwn yn iawn pa saig i fynd amdano"

Lowri Haf Cooke

Hang Fire Southern Kitchen, Y Barri

Ahithau'n bedair mlynedd ers sefydlu'r golofn hon, hoffwn i ddiolch i chi gyd am ddarllen o fis i fis. Nid cyd-ddigwyddiad mo'r ffaith fy mod wedi nghomisiynu i sgwennu llyfr am fwytai gorau Cymru, fydd allan - gobeithio - erbyn Nadolig 2018. Mae cryn deithio a sawru a sgwennu o 'mlaen, ond dwi'n gaddo na fydda i'n esgeuluso fy nyletswyddau i'r Dinesydd, o fis i fis!

Ond â'r blynyddoedd yn gwibio heibio, rhaid oedi am eiliad i ymddiheuro i garfan arbennig o ddarllenwyr y papur bro. Mae'n hawdd iawn anghofio mai 'Papur Bro Caerdydd a'r Fro' yw'r Dinesydd, yn ôl yr is-deitl. Ac er i mi sgwennu ambell waith am fwytai ym Mhenarth, dydw i heb sgrifennu digon yma am yr ardal ehangach.

Wedi'r cyfan, mae na *buzz* ers blynyddoedd yng nghanol tre'r Barri am fwyty chwaethus The Gallery. A, serch yr enw gwirion, clywais ganmol mawr am The Humble Onion, lle safodd The Huntsman yn Ninas Powys am gyhyd. Ac fel yn achos y Plough and Harrow ym mhellafion Yr As Fawr, mae na frolio mawr ar The Fox and Hounds yn Llancarfan, fel tafarn fwyd teuluol o fri.

Ond mae'n deg i ddweud mai un enw sydd wedi llwyddo i ddenu'r sylw i gyd, ers sefydlu yn nociau'r Barri. Yn 1913, dyma oedd porthladd glo prysura'r byd, yn allforio 11 miliwn o dunnelli o'r 'aur du' i'r byd, diolch i weledigaeth David Davies o Landinam. Ganrif yn ddiweddarach, yn 2013, sefydlodd Samantha Evans o Lanilltud Fawr fenter arloesol wahanol, a arweiniodd at fwyty poblogaidd sy' 'di gosod Dociau'r Barri 'nôl ar y map.

Ar y cyd â'i chymar, Shauna Guinn o Ogledd Iwerddon, arbrofodd Sam â chysyniad y 'bwyty unnos' (neu 'pop-up') wrth gynnal nosweithiau barbeciw amrywiol mewn cyfres o dafarndai ledled Caerdydd, cyn sefydlu bwyty go iawn yn 'Ardal Arloesi' Glannau'r Barri yng Ngwanwyn 2016. Mae'r bwyty hwnnw, Hang Fire Southern Kitchen, wedi denu dilyniant mawr, yn lleol ac o bell.

Fe adolygais eu camau cyntaf yn un o erthyglau cynharaf y golofn hon, gan ganmol eu hymroddiad i weini bwyd barbeciw i gystadlu â'r gorau o daleithiau Deheuol yr UDA. Ges i'r cyfle i ymweld â'r bwyty yn sgil yr agoriad, gan dyngu i ddychwelyd mor fuan â phosib, mor rhagorol oedd y bywd. Wel, aeth blwydd a hanner heibio, tan i mi gael cyfle i ail-ymweld! A hynny ar achlysur pen-blwydd fy chwiorydd, Catrin a Lleucu, ar ddiwedd mis Medi.

Dwi'n falch iawn i ddweud i ni gael dathliad o fri, ac nad yw'r safon yno wedi dirywio. Yn bendant, mae'r pwyslais ar blesio cig-garwyr, ond ceir dewis yno hefyd i lysieuwyr. Un enghraifft yn unig yw'r *'deep fried halloumi'* ar ffurf 'Po'Boy', neu 'frechdan' werinol. Ac mae'r ychwanegolion, neu'r *'fixins'* ymylol, fel picls, colslô a 'sglodion gwledig', cystal â'r prif seigiau eu hunain.

Fel un sy'n caru cwrw IPA, dwi'n dotio at eu 'cwrw cartref'; sef trefniant ar y cyd â Bragdy Crafty Devil, Treganna, o'r enw Lockhart, sy'n tasgu o flasau'r hopys. Aeth fy nwy chwaer am y saig rwy'n ei argymell wrth bawb sy'n ymweld â'r bwyty am y tro cyntaf, sef platiad y 'Pit Boss'. Blas bach o bopeth sy'n rhagori ar y fwydlen, gan gynnwys porc wedi'i ddarnio yn null taleithiau'r Carolinas, assennau St Louis a brisged Cig Eidion ar 'dost Texas'. Ond wedi mhrofiad cyntaf i yno, fe wyddwn yn iawn pa saig i fynd amdano - platiad o'r 'ribs', wedi'u tylunio â pherlysiau, a saws barbeciw 'espresso' cartref, yn blasu o ddaioni *umami*. Gorffennwyd â theisen ben-blwydd o fath sy'n gacen gysur i Americanwyr ers cenedlaethau, ac oedd yn berffaith i'r efeilliaid Cooke; *S'more*, sef malws melys wedi'u tostio a'u daenu â saws siocled, a'u brechdanu rhwng dwy fishgîen 'Cookie'!

Os yw'r felys gybolfa uchod yn codi cyfog, yna nid Hangfire Smokekouse yw'r lle i chi! Ond mae'n addas fod diwylliant bwyd o ardal ddifreintiedig, ac ôl - ddiwydiannol y *Deep South* wedi taro deuddeg â thrigolion y Barri. Mae'n ddifyr sut y gall bwyd gynnig hwb i'r economi, ac ailgynnau fflam yr enaid yr un pryd. Dyna'n bendant sydd i gyfri am lwyddiant Cymru fel cyrchfan gastronomaidd o fri, a sut fod galw am lyfrau'n dathlu hynny gan sgwennwyr fel fi. Edrycha i 'mlaen i barhau â'r daith ddanteithiol ledled Cymru.

Hang Fire Southern Kitchen, The Pumphouse, Heol Hood, Barry CF62 5AQ

Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer) £9.99

Tbilisi neu'r Tip!
Cefnogwyr pêl-droed y brifddinas yn gyrru i Georgia.

Mae e 'mond 2,500 o filltiroedd i ffwrdd ond penderfynodd grŵp o gefnogwyr pêl-droed Cymru yrru i Georgia ar gyfer gêm ragbrofol Cwpan y Byd ein tîm cenedlaethol. Bu'r elusen Gôl! yn codi arian ar y ffordd er mwyn helpu plant anghenus ar draws Ewrop. Cychwynnodd dau gar ar y daith deg diwrnod i ddinas Kutaisi sydd wedi ei gefeillio â Chasnewydd. Bu'r cefnogwyr, sy'n dod o Gaerdydd, Caerffili a'r Hengoed, yn cludo cit pêl-droed, llyfrau, dillad a rhoddion eraill, ac wedi cyrraedd yn ddiogel, cyfrannwyd eu ceir hefyd at achosion da yn Georgia.

Noddwyd y ceir gan gwmni Cyngor Ariannol Macsen a'r cwmni ap gofal plant, Wibl. Dyma'r trydydd tro i'r cwmni gynnig cefnogaeth ariannol i Gôl! Dywedodd cyfarwyddwr Macsen, Gweirydd ap Gwyndaf, "'Roedd yn bleser gallu cefnogi Gôl! unwaith eto eleni. Maen nhw'n gwneud gwaith gwerthfawr, nid yn unig i blant anghenus, ond hefyd fel llysgenhadon i Gymru ac i bêl-droed Cymru, ac mae Macsen a Wibl yn falch i allu gwneud cyfraniad i'r achos."

Mae Gôl! wedi meithrin perthynas agos gyda Georgia. Gyrrodd y cefnogwyr yno yn 2009 ar eu ffordd i Azerbaijan i wylio Cymru. Bryd hynny teithiodd 27 o gefnogwyr i Kutaisi gan adael chwech o geir a rhoddion eraill i elusennau yno.

Hydref diwethaf fe drefnon nhw i ddau blentyn o Kutaisi ymweld â Chaerdydd ar gyfer y gêm bêl-droed rhwng y ddwy wlad. Dywedodd Nicoloz Rukhadze oedd yn gwarchod y plant, "Mae'n wych bod y berthynas yma gyda ni. Ry'n ni'n wlad fach hefyd ac mae'n dda cynnal y berthynas a'r cyfeillgarwch yma gyda chenedl debyg i ni."

Dywedodd Tim Hartley ar ran Gôl! "Rhaid diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y daith anhygoel yma yn enwedig Gweirydd a phawb ym Macsen sydd wedi noddi'r ceir. Rydym yn gwneud y pethau bychain er mwyn ceisio helpu pobol lai ffodus na ni a hefyd i godi proffil cefnogwyr pêl-droed ar draws Ewrop. 'Roedd yn ffordd bell i fynd ond 'roeddwn yn falch i gael cwrdd â phobol ifanc Kutaisi unwaith eto."

Yn ystod yr ymweliad rhwng 1 a 4 Hydref bu Gôl! yn ymweld â chanolfan wirfoddol i bobol ifanc awtistig gyda chit arbennig ASD. Bu'r cefnogwyr yn ymweld â nifer o achosion plant eraill tra eu bod yn Kutaisi ynghyd â chartref i blant yn y brifddinas Tbilisi cyn y gêm fawr.

Mae Gôl! yn helpu elusennau plant bob tro y mae'r tîm cenedlaethol yn chwarae. Fe'i sefydlwyd yn 2002 yn Azerbaijan gan gefnogwyr oedd yn dymuno 'gwneud gwahaniaeth.' Ers hynny mae wedi gweithio mewn rhagor na 40 o wledydd ar draws y byd gan gynnig arian a rhoddion at achosion da i blant.

Bydd Gol! yn prynu gluniadur ac yn rhoi citiau pêl-droed i gartref i blant yn ninas Lviv, Iwcrain ar y daith. Hoffai'r cefnogwyr ddiolch i gwmni'r Brodyr Dainton yn Hengoed am y ceir, i Eglwys Gymunedol Pentwyn am y tedis, i Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru am y citiau ac i Ysgol Coedpenmaen am y llyfrau.

Fedrwch chi helpu Gôl! i helpu'r plant? Tbilisi neu'r Tip!
www.Justgiving.com/gol

Am fwy o fanylion cysylltwch â:
Tim Hartley 07716 812043
www.gol.cymru **www.nkta.org/**
www.facebook.com/BRIDGEsocialinclusion

Hywel Samuel & Associates
deintyddfa
dental practice

Your dental practice in
the heart of Cardiff.

28 Heol Eglwys Fair/St Mary St,
Caerdydd. CF10 1AB.
T: 029 20371393
E: info@hywelsamuel.co.uk
w: www.@hywelsamuel.co.uk

Sefydlwyd ein deintyddfa annibynnol dros 40 blynedd yn ôl yng nghanol y brifddinas ar Heol Eglwys Fair. Mae ein lleoliad canolog yn ddelfrydol ar gyfer gweithwyr yng nghanol y ddinas.
Rydym yn cynnig triniaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a phreifat ac yn croesawu cwsmeriaid newydd ar hyn o bryd.

Hoffwn estyn croeso cynnes i Aaron Gwynedd o Gaernarfon a Leah Mc Dougall o Aberystwyth sy'n ymuno efo'r practis.

Cysylltwch â ni heddiw i wneud apwyntiad gan nodi HS/Dinesydd.